# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## MEDI 2001 - MEDI 2002

## AC ADRODDIAD YCHWANEGOL AM Y GWEITHGARWCH HYD AT DDIWEDD MAWRTH 2003

**TUDALENNAU**


| | |
|---|---|
| **CYNNWYS** | **1** |
| **RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD** | **3** |
| **1. CEFNDIR** | **4** |
| **2. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO** | **4** |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | |
| Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | |
| Tystiolaeth ac Adroddiadau | |
| Arbedion Posibl | |
| **3. CRYNODEB O ADRODDIADAU'R PWYLLGOR A GYHOEDDWYD YN 2001-2002** | **6** |
| **Archwiliad Ariannol** | **6** |
| Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000 | |
| Cyllid GIG Cymru | |
| **Gwerth am Arian** | **9** |
| Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau | |
| Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol i Gymru | |
| Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd | |
| Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol | |
| Rheoli ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru | |
| **4. GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN Y DYFODOL GWEITHGARWCH ERS MIS MEDI 2002** | **22** |
| **Archwiliad Ariannol** | **22** |
| Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001 | |
| **Adroddiadau Gwerth am Arian** | **24** |
| Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru | |
| Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru | |
| **YMCHWILIADAU SYDD EISOES AR Y GWEILL** | **27** |
| **ATODIADAU** | |
| Atodiad A: Y Pwyllgor Archwilio: Cylch Gorchwyl | **29** |
| Atodiad B: Rheol Sefydlog 12: Y Pwyllgor Archwilio | **31** |
| Atodiad C: Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio | **34** |
| Atodiad D: Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio | **35** |
| Atodiad E: Argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd yn ystod 2000-2001 | **36** |
| Atodiad F: Argymhellion adroddiadau a gyhoeddwyd ers mis Medi 2002 | **46** |


## RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Mae'n ddyletswydd ar Bwyllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol i ofalu bod arian trethdalwyr Cymru yn cael ei wario'n ddoeth ac yn briodol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bleser gennyf gyflwyno trydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor, sydd, unwaith yn rhagor, yn pwysleisio bod disgwyl i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad, gadw at y safonau uchaf posibl o reolaeth ariannol.

Gobeithir bod trafodaethau'r Pwyllgor Archwilio y flwyddyn ddiwethaf wedi annog y cyrff cyhoeddus hynny i barhau yn eu hymdrechion i sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian i'r trethdalwr. Gan fod etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gorwel (mis Mai 2003) mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed ers mis Medi 2002 a'r gwaith sydd ar y gweill hyd at ddiwedd Mawrth 2003.

Unwaith eto, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddiolch i Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn, a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru am weithio mor galed i alluogi'r pwyllgor i gyflawni ei waith o archwilio gwariant cyhoeddus. Dymuna hefyd gydnabod ar goedd gyfraniad pwysig yr holl swyddogion a'r tystion eraill a ddaeth ger ein bron.

Mae'n bwysig i'n hatgoffa ein hunain bod y pwyllgor yn ceisio cydnabod pethau a wnaed yn dda, yn ogystal â phethau y gellid bod wedi eu gwneud yn well neu'n wahanol, fel bod trethdalwyr yn cael gwell gwerth am arian. Mae'r gwaith dilynol a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn bwysig i glustnodi mannau lle gellir arbed arian a buddiannau eraill o weithredu argymhellion y Pwyllgor Archwilio.

Bydd y sawl sy'n darllen yr adroddiad hwn yn sylwi bod yr adroddiad a ddilynodd Caffael yn y Sector Addysg Bellach yn dangos yr arbedion a wnaed trwy ddilyn argymhellion adroddiad blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae caffael nwyddau a gwasanaethau gan y sector cyhoeddus yng Nghymru’n parhau i fod yn faes lle gall yr arbedion fod yn sylweddol, a bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc hwn yn y dyfodol.

Bydd yr adroddiadau sydd ar y gweill - ar adeilad newydd y Cynulliad a system TG y Cynulliad - hefyd yn dangos y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud i archwilio gallu'r Cynulliad i reoli risg yn effeithiol wrth drefnu contractau â'r sector preifat.

Mae'r arbedion ariannol posibl y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw atynt yn ei adroddiadau yn cynyddu, ac maent bellach yn uwch na'r amcangyfrif, sef seithgwaith gymaint â chost yr ymchwiliadau. Y corff gafodd ei archwilio sy'n gyfrifol am sicrhau'r arbedion hyn, er y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei ran, a gall peth amser fynd heibio cyn y llwyddir i sicrhau'r arbedion yn llawn.

Rwy'n hynod falch fod Cabinet y Cynulliad wedi croesawu holl adroddiadau'r Pwyllgor ac wedi ystyried gweithredu ein hargymhellion. Gyda chymorth Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro i ba raddau y caiff ei holl argymhellion eu gweithredu a bydd yn pwyso a mesur y buddiannau sy'n deillio o hynny i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn craffu'n drwyadl ac yn briodol ar feysydd newydd o wariant yn y Cynulliad, fel y

nodir yn ein blaenraglen waith, ac yn unol â'r hyn a ddisgwylir gennym gan bobl Cymru. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau â'r gwaith gwerthfawr hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dafydd Wigley AC**
**Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**MEDI 2001 - MEDI 2002**

## 1. CEFNDIR

1.1 Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar waith y Pwyllgor Archwilio, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 12.2. Mae'r adroddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor ac yn rhoi gwybodaeth am ei weithgareddau yn ystod ei drydedd flwyddyn.

## 2. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

2.1 Rôl y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n briodol ac yn drylwyr. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Atodiad A) ac yn Rheol Sefydlog 12 (Atodiad B). Yn fras, cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio yw craffu ar adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a ysgrifennwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol); ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar archwiliadau ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. gwerth am arian) y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig wrth ddefnyddio'u hadnoddau i gyflawni'u swyddogaethau. Prif bwrpas y Pwyllgor yw sicrhau bod y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n atebol iddo'n cadw at y safonau uchaf posibl wrth reoli eu hadnoddau ariannol.

2.2 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn ffordd amhleidiol, heb gwestiynu gwerth amcanion polisi, ond yn canolbwyntio ar ofyn a yw'r cyrff dan sylw wedi rhoi ystyriaeth briodol i reoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian wrth roi eu polisïau a'u rhaglenni ar waith.

2.3 Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried yn flynyddol amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o'i incwm a'i dreuliau am y flwyddyn ddilynol. Bryd hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried rhaglen arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwiliadau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth lunio'i raglen, ond ef fydd yn penderfynu ar y cynnwys yn y pen draw.

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

2.4 Mae adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf 1998) yn awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i gymryd tystiolaeth a gwneud argymhellion i'r Cynulliad ar sail adroddiadau a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Golyga hyn fod perthynas waith glòs rhwng y Pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn. Ei waith ef yw man cychwyn rhaglen waith y Pwyllgor ei hun ac mae'n helpu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru i sicrhau bod eu gweithgareddau yn rhoi

gwerth am arian ac yn eu helpu i sicrhau bod eu materion ariannol yn cael eu rheoli yn briodol a rheolaidd.

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**

2.5 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw'r prif gorff archwilio yn y sector cyhoeddus sy'n archwilio cyfrifon adrannau Llywodraeth y DU a nifer o gyrff cyhoeddus eraill. Gall hefyd gynnal astudiaethau Gwerth am Arian o'r cyrff hynny. Mae'n darparu cyngor, gwybodaeth a sicrwydd annibynnol i'r Senedd ar y modd y defnyddir cyllid cyhoeddus. Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sy'n gwneud y gwaith archwilio ariannol a'r archwiliadau Gwerth am Arian ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hefyd yn darparu cymorth gweinyddol iddo. Mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cydweithio'n glòs â'r Pwyllgor Archwilio, gan ddarparu cymorth technegol ar gyfer ei sesiynau clywed tystiolaeth.

**Tystiolaeth ac Adroddiadau**

2.6 Ar ôl ystyried adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, bydd y Pwyllgor Archwilio, fel rheol, yn clywed tystiolaeth gan Swyddog Cyfrifo (h.y. yr uwch was sifil â chyfrifoldeb personol am y gwariant perthnasol) y corff dan sylw i ystyried materion sydd wedi'u tanlinellu yn yr adroddiad. Bydd y Pwyllgor Archwilio wedyn yn llunio ei adroddiadau ei hun ar sail y canfyddiadau.

2.7 Adroddiadau y cytunwyd arnynt yw'r adroddiadau a gyflwynir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Archwilio. Fe'i cyhoeddir dim ond pan fo'r Archwilydd Cyffredinol a'r adran dan sylw wedi cytuno ar y cynnwys. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad oes anghytundeb o ran y ffeithiau pan fo adroddiadau o'r fath yn dod gerbron y Pwyllgor

2.8 Caiff yr adroddiadau a lunnir gan y Pwyllgor Archwilio eu rhoi ger bron y Cynulliad a rhaid i'r Cabinet ymateb cyn pen 30 diwrnod gwaith. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi wyth adroddiad o Fedi 2001 hyd Fedi 2002 (Atodiad D). Bydd pob Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar gael ar y We Cynulliad Cenedlaethol Cymru: www.wales.gov.uk busnes y Cynulliad.

2.9 Pan gafodd ei benodi, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol nod iddo'i hun o sicrhau arbedion i'r Cynulliad yn ei waith oedd seithgwaith gymaint â'r costau y cyllidebwyd ar eu cyfer. Croesawodd y Pwyllgor y nod hwn. Roedd yn rhoi ffydd i'r Pwyllgor, ac i Lywodraeth y Cynulliad, wrth gynnig yr adnoddau sylweddol a neilltuwyd i'r swyddogaeth archwilio. Bydd y Pwyllgor Archwilio, gyda chymorth yr Archwilydd Cyffredinol, yn ceisio cyrraedd y targedau hyn, er mwyn i'r arian a arbedir gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill yn yr adrannau archwiliedig. Y cyrff archwiliedig sy'n gyfrifol am wneud yr arbedion hynny, ac mae'n anochel y bydd rhywfaint o oedi cyn y gwneir yr arbedion. Mae rhai arbedion rheolaidd wrth natur yn rhai cronnol.

2.10 Yn y cyd-destun hwnnw mae'n dda gweld asesiad yr Archwilydd Cyffredinol bod yr arbedion posibl yn sgil ei adroddiadau bellach wedi mynd y tu hwnt i'r

targed seithplyg. Yn y ddogfen 'Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2004', dywedodd Archwilydd Cyffredinol ei fod, yn ystod y tair blynedd ers i'r swydd gael ei chreu yn 1999, wedi clustnodi dros £40 miliwn o arbedion posibl yn ogystal â nifer fawr o welliannau anfesuradwy i systemau a'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus.

2.11 Mae'r gwaith Archwilio felly'n talu ei ffordd, a hefyd yn rhyddhau adnoddau y gellid eu defnyddio'n well. Mae Cymru felly ar ei hennill.

<u>Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r archwiliadau Gwerth am Arian 2002-2003</u>

2.12 Rhoddwyd Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn 2002-2003 ger bron y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2001, ac roedd tua £200,000 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cytunodd y Pwyllgor bod y cynnydd hwn yn fach yng ngolau'r rhaglen waith a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chymeradwyodd yr amcangyfrif.

2.13 Roedd y cynnydd yn cynnwys codiad o 4% yn y costau gweithredu presennol, a'r rheswm pennaf am hynny oedd bod cyflogau wedi cynyddu. Roedd cyllid oedd ei angen i wella seilwaith technoleg gwybodaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gynwysedig yn y cynnydd o 4%. Byddai £125,000 o'r cynnydd y gofynnwyd amdano yn cael ei ddefnyddio i gyflogi pump aelod newydd o staff. Byddai rhai o'r staff newydd hyn yn delio gyda chyfrifon newydd sydd i'w harchwilio, megis Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, Cyngor Gofal Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, yn ogystal â chyllid Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd. Roedd angen y staff ychwanegol hefyd i helpu gyda'r Rhaglen Gwerth am Arian i sicrhau bod amrywiaeth o astudiaethau yn cael eu gwneud. Roedd rhai ohonynt yn golygu ymweld â sefydliadau lleol megis ysbytai neu golegau addysg bellach. Hefyd, byddai'r adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio i weld i ba raddau y mae'r argymhellion yn cael eu gweithredu, ac i ymateb i geisiadau penodol gan y Pwyllgor, megis y papur y gofynnwyd amdano ar hynt adeilad y Cynulliad.

2.14 Rhoddodd y pwyllgor hefyd ystyriaeth i Raglen Gwerth am Arian arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 6 Tachwedd 2001. Gofynnwyd i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried ymchwilio i dwyll yn y GIG fel rhan o raglen Gwerth am Arian yn y dyfodol. Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith yn y maes hwn ac roedd arolwg o faterion twyll yn ei adroddiadau ar Gyfrifon Cryno y GIG a Chyllid GIG Cymru 2002. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a allai'r archwiliad arfaethedig i Gaffael Cyffuriau yn y GIG gael ei ddwyn ymlaen o'r dyddiad arfaethedig o 2003-2004, a chytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried y mater.

2.15 Y pynciau y cytunwyd arnynt yn derfynol ar gyfer y rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian yn 2002-2003 oedd:

- absenoldeb salwch yn y GIG

- caffael meddyginiaethau yn y GIG (er mwyn gwneud lle yn y rhaglen, a lleihau'r baich ar staff y GIG, cafodd archwilio'r broses o bwrcasu cyfleustodau yn y GIG ei ohirio tan y flwyddyn ganlynol, 2003-04).
- caffael yn y sector addysg uwch
- rheoli ystadau yn y sector addysg uwch
- Cymorth Rhanbarthol Dewisol
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - rheoli gwastraff
- gweithgareddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref
- hynt prosiect adeilad newydd y Cynulliad(yn enwedig archwiliad o’r camau a gymerwyd gan y Cynulliad a arweiniodd a benderfyniad y Dyfarnwr yn yr anghydfod cyfreithiol rhwng y Cynulliad a Phartneriaeth Richard Rogers)

2.16 Roedd cynigion gwreiddiol yr Archwilydd Cyffredinol o'r pynciau i'w harchwilio o ran Gwerth am Arian hefyd yn cynnwys archwiliad o'r argyfwng traed a'r genau. San Steffan (y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac yn ddiweddarch, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddelio â'r argyfwng ledled Prydain Fawr ac felly cafodd hyn ei drin gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol dros Brydain Fawr. Yn yr adroddiad hwn, cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i sicrhau bod y digwyddiadau yng Nghymru yn cael digon o amlygrwydd fel bod y canfyddiadau perthnasol ar gael yn rhwydd i ddarllenwyr.

2.17 Roedd caffael yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r gweithgareddau Gwerth am Arian, gan ei bod yn hysbys y gallai gwell arferion caffael arwain at arbedion ariannol sylweddol.

## 3. CRYNODEB O ADRODDIADAU'R PWYLLGOR A GYHOEDDWYD YN 2001-2002

### ARCHWILIADAU ARIANNOL

3.1 Caiff y cyfrifon blynyddol sy'n cael eu paratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff eraill sy'n cael eu noddi a'u hariannu gan y Cynulliad eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.2 Yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiadau o'r enw, "Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000" a "Chyllid GIG Cymru 2002". Hefyd, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr "Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001" a " Chyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 2000-2001".

Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000

3.3 Ar 1 Gorffennaf 1999, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am weinyddu'r GIG yng Nghymru (GIG Cymru) i'r Cynulliad yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am baratoi cyfrifon cryno cyrff y GIG yng Nghymru i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn 1999-2000, paratowyd cyfrifon cryno GIG Cymru gan y Cynulliad ar sail y cyfrifon blynyddol a gyflwynwyd gan y pum Awdurdod Iechyd a'r 16 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a osodwyd ger bron y Cynulliad ar 29 Mawrth 2001, yn cwmpasu perfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru ac amryw o faterion rheolaeth a dulliau rheoli mewnol yn ogystal â chrynhoi canlyniadau'r archwiliad.

3.4 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i berfformiad GIG Cymru o dan bedwar prif bennawd:

- cyflwr ariannol cyffredinol GIG Cymru
- ailgyflunio ac ailstrwythuro
- prisio presgripsiynau
- mynd i'r afael â thwyll yn y GIG

3.5 Ar 28 Mehefin 2001, bu'r Pwyllgor Archwilio yn gwrando ar dystiolaeth gan Ann Lloyd, Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru, Sara Beaver, Prif Swyddog Cyllid y GIG yng Nghymru a Jan Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Iechyd Bro Taf.

3.6 I gloi, rhoddwyd y sylwadau canlynol:

***Mae 'Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid'*** *yn nodi rhaglen weithredu'r Cynulliad ar gyfer gwella iechyd a gofal iechyd pobl Cymru dros y 10 mlynedd nesaf. Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i atgyfnerthu lefelau y sgiliau ariannol a'r sgiliau rheoli prosiect o fewn GIG Cymru.*

*Rydym yn cydnabod bod GIG Cymru yn gwneud cynnydd da ar ymdrin â pherfformiad ariannol gwael. Er hynny, mae llawer eto i'w wneud. Gan hynny, rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i roi sylw i ddiffyg cronedig sylweddol GIG Cymru (£58 miliwn ar 31 Mawrth 2000), i roi ystyriaeth ofalus i'n hargymhellion ar reoli diddymiad yr awdurdodau iechyd, ac i barhau i geisio lleihau lefel y twyll o fewn GIG Cymru. Mae'n holl bwysig bod GIG Cymru yn gallu manteisio'n llawn ar yr holl adnoddau sydd ar gael a'u defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl er mwyn darparu gwasanaeth iechyd o ansawdd uchel i bobl Cymru."*

3.7 Ceir argymhellion yr adroddiadau hyn yn Atodiad E.

3.8 Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad gan Gabinet y Cynulliad. Mae'r Gyfarwyddiaeth GIG wedi mynd ati i wella'r dulliau o wneud proffwydoliaethau ariannol mewn Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG ac i rannu'r arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys adolygu perfformiad ariannol yn fwy rheolaidd, a monitro prosiectau a rhaglenni penodol lle gallai oedi effeithio ar broffwydoliaethau'r dyfodol. Disgwylir i'r cysoniadau misol rhwng pregripsiynu a dosbarthu o Atebion Iechyd Cymru ddod yn fwy dibynadwy wrth i wybodaeth gywirach am brisiau ddod i'r amlwg. Hefyd, mae targedau wedi eu pennu ar gyfer gwneud taliadau prydlon gan GIG Cymru, ac mae cynlluniau adfer ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru ac ardal Awdurdod Iechyd Gwent yn cael eu rhoi ar waith ar frys.

3.9 Mae swyddogion y Cynulliad yn monitro cynllun adfer diwygiedig ar gyfer gordaliadau i fferyllwyr a disgwylir y bydd yn cyrraedd ei dargedau. Er mwyn gwella'r dull o fonitro incwm o bresgripsiynau, mae fframwaith statudol ar gyfer codi taliadau cosb a thaliadau ychwanegol wedi cael ei rhoi yn ei lle a'i chyhoeddi. Bydd yr Uned Dilysu Ôl-Daliadau newydd yn edrych ar sampl o bregripsiynau ac yn cymryd camau yn erbyn pobl sydd wedi gofyn am bresgripsiynau di-dal heb fod ganddynt hawl i hynny. Gwnaed hyn ar y cyd â thîm yng Ngwasanaeth Gwrth Dwyll y GIG. Bydd llinell waelod yn cael ei phennu i fesur twyll wrth hawlio presgripsiynau am ddim er mwyn medru cymharu â'r sefyllfa yn y dyfodol ac â'r lefelau o dwyll yn Lloegr, a bydd hefyd yn helpu gyda'r gwaith o bennu targedau lleihau twyll yn y dyfodol. Mae camau tebyg ar y gweill i fesur twyll ym maes opthalmeg a deintyddiaeth.

3.10 Mae uwch gyfarwyddwr prosiect yn rheoli'r gwaith o ailstrwythuro GIG Cymru ac mae dadansoddiad trylwyr ar y gweill o gostau a risgiau y weithdrefn bresennol a'r weithdrefn arfaethedig. Bydd y Gyfarwyddiaeth GIG yn monitro'r gwariant ac yn rhoi adroddiad am y costau yn ei chyfrifon blynyddol statudol ac fel rhan o'r broses fisol o fonitro cyllid. Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad ar gadw staff GIG talentog a chadw diswyddiadau i'r lleiafswm, mae Grwp Llywio Adnoddau Dynol wedi cael ei ffurfio ar y cyd ar gyfer Cymru gyfan er mwyn rheoli'r newidiadau yn sefyllfa waith staff yr

awdurdod iechyd. Bydd yr holl staff yn cael gwybodaeth am hynt y grwp ac ymgynghorir â'r staff am unrhyw gynigion cyn y gwneir y penderfyniadau terfynol.

Cyllid GIG Cymru 2002

3.11 Ar 20 Mawrth 2002, gosododd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar "Gyllid GIG Cymru 2002" ger bron y Cynulliad. Ar 18 Ebrill 2002, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth oddi wrth Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru, a Sarah Beaver, Cyfarwyddwr Is-adran Cyllid y GIG.

3.12 Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar 25 Gorffennaf 2002 ar Gyllid GIG Cymru. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cwmpasu themâu perfformiad ariannol cyffredinol, prisio presgripsiynau, twyll ac ailstrwythuro.

3.13 Wrth roi sylwadau ar berfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru, dywedwyd yn yr adroddiad:

*"Derbyniwn iddi fod yn angenrheidiol i ddarparu cyllid cynorthwyol strategol er mwyn galluogi ymddiriedolaethau GIG arbennig i gyflawni eu cynlluniau adfer ariannol. Derbyniwn ymhellach y byddai'n afresymol i roi baich dyledion eu rhagflaenwyr ar y sefydliadau GIG newydd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gellid ystyried camau o'r fath fel dull o wobrwyo perfformiad ariannol gwael a gallai fod yn wrthanogol i sefydliadau gochelgar. Mae ailstrwythuro GIG Cymru a darparu cyllid ychwanegol i'r GIG sy'n deillio o'r gyllideb yn gyfle rhagorol am ddechreuad newydd. Rydym yn argymell yn gryf felly y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn sylweddoli bod angen sefydlogrwydd ariannol ac y dylid gweithredu hyn o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rydym yn awgrymu hefyd y byddai'n briodol i Gyfarwyddiaeth y GIG amlinellu'n glir o'r cychwyn dan ba amgylchiadau eithriadol y byddai benthyciadau y byddai'n rhaid eu had-dalu ar gael.*

*Mae problemau a achosir gan reoli ariannol gwael a thrafferthion ariannol yn y GIG yn tynnu oddi ar y prif faes o ddarparu safon gywir o ofal iechyd. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cymryd diddordeb arbennig mewn sefydliadau GIG unigol sy'n cael trafferthion ariannol."*

3.14 I gloi'r adroddiad, gwnaed y sylwadau canlynol:

*"Yn ei Gyllideb ar gyfer 2002, amlinellodd y Canghellor ei gynnig i godi refeniw ychwanegol er lles y GIG. Mae hawl gan bobl Cymru i ddisgwyl fod yr adnoddau sydd ar gael i GIG Cymru yn cael eu defnyddio'n ddoeth, gan ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian a'r gofal i gleifion o ansawdd gorau posibl. Mae ailstrwythuro GIG Cymru yn gyfle da i sicrhau newidiadau y mae eu hangen yn ddybryd. Gobeithiwn na fydd y cyfle'n cael ei wastraffu."*

3.15 Ceir argymhellion manwl yr adroddiad yn Atodiad E.

3.16 Derbyniodd Cabinet y Cynulliad argymhellion y Pwyllgor ynghylch sefydlogrwydd ariannol GIG Cymru ac yn ei ymateb amlinellodd rai o'r camau sy'n cael eu cymryd. Mae gwasanaeth a fframwaith ariannol newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG ddangos sut y gall blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael. Cymerwyd camau i adfer sefyllfa ariannol y rhannau hynny o'r GIG sydd heb lwyddo i unioni'r fantol ariannol yn 2002-2003. Dylai amodau unrhyw fenthyciadau fydd yn cael eu rhoi ôl hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i dalu dyledion ariannol gael eu pennu'n glir. Roedd Adran GIG Cymru hefyd yn canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu rheolwyr GIG i'w helpu i reoli cyfundrefnau cymhleth, tra'n sicrhau eu bod yn cadw at God Ymarfer. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad bod camau ar y gweill i effeithio er gwell ar broffwydoliaethau ariannol, gan gynnwys cyflymu'r broses o adennill gordaliadau fferyllwyr ac adolygu'r modd yr ymdrinnir â cheisiadau am iawndal oherwydd esgeulustod clinigol. Roedd system symlach o wneud taliadau wedi cael ei rhoi ar waith yn y rhan fwyaf o'r Ymddiriedolaethau GIG ac roedd hon yn cael ei monitro'n ofalus. Roedd cost twyll yn cael ei drin trwy gyfrwng rhaglen o newid diwylliannol gan gynnwys siarteri gwrth-dwyll a lofnodwyd gan weithwyr proffesiynol y GIG a chyrff rheoleiddio. O ran ailstrwythuro, roedd contract cyffredin o gyflogaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer staff yn y cyrff GIG a ailstrwythurwyd. Bydd cost bosibl yr ailstrwythuro yn cael ei adolygu gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgymryd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi am y gwir gostau yn rheolaidd.

3.17 Roedd y Pwyllgor o'r farn bod ymateb y Cabinet i rai o'i argymhellion yn brin o fanylion penodol am y modd y cânt eu gweithredu. Ymhlith yr enghreifftiau roedd y camau a gymerir ar gyfer Ymddiriedolaethau nad oedd wedi unioni'r fantol ariannol mewn dwy flynedd, manylion y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r broses broffwydo, ac a fyddai'r adolygiad o'r system esgeulustod clinigol yn diwallu pryderon y Pwyllgor. Ers i adroddiad y Pwyllgor gael ei gyhoeddi, mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd i godi'r materion hyn, ac mae wedi gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadarnhau bod canlyniadau'r dyfodol yn gydnaws â'i argymhellion. Bydd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gyllid GIG Cymru 2003 yn gyfle arall i'r Pwyllgor adolygu'r cynnydd a wnaed.

## ADRODDIADAU GWERTH AM ARIAN

3.18 Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiadau Gwerth am Arian canlynol rhwng mis Medi 2001 a mis Medi 2002:

- Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau
- Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol i Gymru
- Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd
- Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru: Y Ganolfan Celfyddydau Gweledol
- Rheoli ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru

3.19 Mae argymhellion manwl yr adroddiadau hyn yn Atodiad E.

- Mae gweithgarwch y Pwyllgor ers mis Medi 2002 yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

Adroddiad ar Fwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau

3.20 Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad "Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau" gerbron y Cynulliad ar 30 Tachwedd 2000. Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth ar hyn. Yn y sesiwn gyntaf clywodd y Pwyllgor dystiolaeth George Craig, uwch gyfarwyddwr polisi cymdeithasol a materion llywodraeth leol y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hefyd ar y pryd yn Swyddog Cyfrifo Dros Dro'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Yn yr ail sesiwn clywyd tystiolaeth Erica Barrie, Ysgrifennydd Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, Gweithrediaeth Cymru; Ann Lewis, Ysgrifennydd a Chofrestrydd Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr; Phil Parry, Cadeirydd Pwyllgor Fferyllol Canolog Cymru; a Chris Martin, Is-Gadeirydd Pwyllgor Fferyllol Canolog Cymru.

3.21 Yn ystod 2000-2001, roedd y gwariant gros ar bresgripsiynau dros £380 miliwn, neu 13 y cant o'r amcangyfrif o wariant y GIG yng Nghymru. Felly, bu cryn ddiddordeb mewn presgripsiynu, ac roedd yr adroddiad hwn yn un o gyfres yr oedd y Pwyllgor Archwilio yn disgwyl ei gyhoeddi ar y pwnc.

3.22 Roedd adroddiad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y refeniw y mae'r taliadau presgripsiwn yn ei godi. Yn ei adroddiad roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi asesu i ba raddau yr oedd y rhai hynny a oedd yn hawlio presgripsiynau di-dâl â hawl i gael eu heithrio. Er bod yr amcangyfrif o'r incwm a gafodd ei godi trwy daliadau presgripsiwn yn 2000-2001 yn £23 miliwn, daeth yr adroddiad i'r casgliad y gallai'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru fod yn colli tua £15 miliwn y flwyddyn am fod pobl nad oedd y cwrdd â'r meini prawf perthnasol wedi cael eu heithrio rhag talu am bresgripsiynau.

3.23 Wrth gyflwyno ei ganfyddiadau daeth y Pwyllgor i'r casgliad hwn:

*"Ym marn y Pwyllgor mae'n annerbyniol bod y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn cael ei amddifadu o incwm posibl o hyd at £15 miliwn y flwyddyn oddi wrth unigolion sydd yn derbyn presgripsiynau yn rhad ac am ddim tra nad oes ganddynt hawl i dderbyn y budd hwnnw. Disgwyliwn i'r Cynulliad weithio gyda phawb sydd yn ymwneud â gweinyddu'r trefniadau hyn i sicrhau y cymerir camau cadarn yn fuan i ymdrin â'r gwendidau a ganfuwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhai a drafodir yn yr adroddiad hwn.*

*Credwn fod angen i'r Cynulliad weithio'n agos gyda chynrychiolwyr fferyllfeydd yng Nghymru i sicrhau y caiff fferyllwyr eu cymhwyso a'u cynorthwyo'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u bod yn gweithredu oddi mewn i drefniadau cytundebol sydd yn sicrhau gweinyddu taliadau presgripsiynau yn effeithiol. Yr ydym hefyd yn disgwyl i'r Cynulliad gymryd camau ar unwaith i ymdrin â'r gwendidau systemig ehangach a drafodasom yn*

*y monitro a'r rheoli ar y system ar gyfer eithrio rhag taliadau presgripsiynau. Cydnabyddwn ei bod yn bosibl y bydd delio â'r gwendidau hyn yn ychwanegu at y beichiau a roddwyd ar fferyllwyr eisoes. Fodd bynnag, o wybod mai'r bwriad yw sicrhau bod fferyllwyr yn gwneud y gwiriadau wrth ddosbarthu y telir iddynt am eu gwneud eisoes yn fwy effeithiol ac yn fwy cyson, ni chredwn y byddai unrhyw ofynion ychwanegol yn ormodol neu'n orfeichus.*

*Yn gyffredinol, yng ngolwg y pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r ymrwymiadau cadarn a roddwyd i ni i fynd â'r afael â'r rhain, disgwyliwn weld gostyngiad cyflym flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer yr eithriadau rhag taliadau presgripsiynau a roddir i unigolion nad oes ganddynt hawl i dderbyn y budd hwn."*

3.24 Ymatebodd y Cabinet yn ffafriol i'r deg argymhelliad yn yr adroddiad. Yn ei asesiad o ymateb y Cabinet, tynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru sylw penodol at ymrwymiadau clir ynghylch amseriad y camau penodol a ddisgrifir yn yr ymateb.

3.25 Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor ynghylch twyll mewn perthynas â phresgripsiynau, addawodd y Cabinet roi cyfres o gamau ar waith. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gan Wasanaeth Gwrth Dwyll y GIG i bennu llinell waelod ar gyfer twyll yn y GIG yng Nghymru a bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu dosbarthu yn pennu'r gwahanol rolau a'r cyfrifoldebau am y systemau monitro a chadarnhau.

<u>Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol i Gymru</u>

3.26 Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymchwiliad y Pwyllgor i addysgu a hyfforddi myfyrwyr proffesiynol iechyd yng Nghymru - nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill, megis ffisiotherapyddion a radiograffyddion. Mae'r GIG yn wynebu prinder dybryd o weithwyr proffesiynol iechyd ac un dull pwysig o ddatrys hyn yw sicrhau bod y GIG yn hyfforddi'r nifer priodol a'r mathau iawn o staff proffesiynol iechyd. Mae'n rhaid wrth gynllunio'r gweithlu'n dda ac arfer systemau comisiynu a chyflawni effeithiol er mwyn cael staff sy'n gymwys i weithio. Mae hefyd yn dibynnu ar gydweithredu clos rhwng y GIG ac eraill sy'n cyflogi staff gofal iechyd, y darparwyr addysg a hyfforddiant a'r gwahanol gyrff rheoleiddio a phroffesiynol.

3.27 Yn 1999-2000, gwariodd y Cynulliad £42 miliwn ar lefydd hyfforddiant cyn-cofrestru a bwrsarïau ar gyfer tua 3,200 o fyfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a myfyrwyr proffesiynol iechyd eraill. Mae mwyafrif yr addysg hwn yn cael ei ddarparu o dan gontractau GIG gyda chwe sefydliad addysg uwch yng Nghymru ac mae'n arwain at radd neu gymwysterau ar lefel diploma.

3.28 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru oedd y cyntaf i archwilio'r pwnc pwysig hwn o safbwynt y GIG yn ogystal ag Addysg Uwch. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i'r tystion o'r naill sector a'r llall a bu eu tystiolaeth yn fodd i'w sicrhau bod pwysigrwydd partneriaeth wedi ei ymgorffori yn y berthynas waith

rhwng y ddau sector. Tystion GIG Cymru oedd Ann Lloyd, Cyfarwyddwr, Sarah Beaver, Pennaeth Is-adran Cyllid y GIG, ac Alan Hanna, Pennaeth y Gangen Addysg a Hyfforddiant (Proffesiynol a Rheolaethol), yr Is-adran Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth y GIG. Tystion Addysgu a Dysgu Cymru oedd Steve Martin, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifo a Roger Carter, Pennaeth Rhaglenni.

3.29 Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar dri prif faes

- priodoldeb y mesurau a ddefnyddir gan NHS Cymru i oresgyn prinderau staff, gan gynnwys yr angen i wella'r system ar gyfer cynllunio'r gweithlu
- a fydd y trefniadau addysg a hyfforddiant yn darparu'r niferoedd angenrheidiol o staff newydd, o'r ansawdd sy'n ofynnol
- sut y mae'r Cynulliad a'r sector addysg uwch yn bwriadu sicrhau bod y naill barti a'r llall yn cael gwell gwerth am arian o'r trefniadau ar gyfer addysgu a hyfforddi staff iechyd proffesiynol

3.30 Wrth gyflwyno'r adroddiad, daeth y Pwyllgor i'r casgliad canlynol:

*"Ers tua dwy flynedd bellach, mae'r NHS yng Nghymru wedi dioddef oherwydd prinderau sylweddol o staff iechyd proffesiynol. Mae'r prinderau hyn yn peryglu'r gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaethau gofal iechyd. Mae angen i'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch gydweithio'n agosach mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y comisiynir y niferoedd a'r mathau priodol o leoedd i fyfyrwyr iechyd proffesiynol; bod ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir yn cael ei ddiogelu; a bod y cyfraddau athreulio yn gostwng. Dylid rhoi sylw ar frys hefyd i'r angen i fuddsoddi mewn llety a staff ar gyfer addysgu.*

*Mae'n hanfodol hefyd cael cydbwysedd rhwng cost yr hyfforddiant a ddarperir a'r pris a delir gan yr NHS; a bod y pris hwnnw'n cynrychioli gwerth da am arian i'r ddau sector. Mae angen sefydlu strwythurau prisio a chostio newydd; ac angen i'r Cynulliad sicrhau y pennir cyfeiriad strategol eglur i'r gwaith o gomisiynu addysg a hyfforddiant."*

3.31 Mae argymhellion yr adroddiad i'w gweld yn Atodiad E, a'u diben oedd helpu'r sectorau iechyd ac addysg i gydweithio'n fwy effeithiol ac yn fwyaf arbennig i: ddarparu digon o staff proffesiynol newydd ym maes gofal iechyd; darparu'r addysg a'r hyfforddiant yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon; a sicrhau bod y staff proffesiynol sydd newydd gymhwyso ym maes iechyd yn medru darparu gofal o safon dda i gleifion.

3.32 Croesawyd yr argymhellion hyn gan y Cabinet. Yn ei ymateb dywedodd bod y defnydd a wneir o staff tramor a staff asiantaeth yn cael ei adolygu. Roedd rhaglen o hyfforddiant wedi cael ei sefydlu ar gyfer staff cynllunio'r gweithlu a rheolwyr GIG, ac roedd system gyfrifiadurol o gasglu a monitro data am lefelau staff wedi cael ei rhoi ar waith. Roedd Adolygiad Capasiti wedi cael ei gynnal i bwyso a mesur y buddsoddiad cyfalaf oedd ei angen ar gyfer y nifer uwch o fyfyrwyr a ddisgwylir yn y sectorau academaidd a chlinigol. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch a'r GIG eisoes yn

ystyried sut i oresgyn rhai anawsterau mawr o ran cynyddu capasiti. Roedd y GIG yn rhoi mwy o gyllid a byddai cyllid cyfalaf i helpu'r Sefydliadau Addysg Uwch i gynyddu eu capasiti yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau cyllidebol y Cynulliad. Roedd darparu digon o staff addysgu yn broblem, ac roedd dulliau amgenach o gynnig llefydd ymarfer yn cael eu hystyried. Mae mwy o gyfle yn cael ei ddarparu i fanteisio ar addysg trwy gynnig rhaglenni rhan amser a charlam a datblygu systemau cynnal myfyrwyr er mwyn cadw'r staff hynny sy'n ymuno â'r GIG. Mae GIG Cymru  ac ELWa yn cydweithio ar yr arfer gorau mewn negodi contractau. Mae'r ffordd y mae contractau'r GIG yn cael eu negodi wedi newid i fod yn fwy tryloyw ac i roi gwell gwerth am arian heb amharu ar ansawdd y cyrsiau. Mae'r broses o negodi contractau a'r adolygiad o berfformiad y GIG erbyn hyn yn cael eu gwneud yn gynt yn y flwyddyn ariannol er mwyn helpu i reoli cyllidebau yn fwy effeithlon.  Bydd hyn yn cael ei adolygu yn 2003. Er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â hyn yn gyson o fewn y Cynulliad, mae materion adnoddau dynol meddygol ac anfeddygol erbyn hyn yn rhan o'r Gangen Addysg, Hyfforddiant a Datblygu, ac mae'r lefelau staffio ym maes adnoddau dynol wedi gwella.

<u>Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd</u>

3.33 Roedd yr adroddiad yn archwilio'r broses a arweiniodd at ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben a'r trefniadau a roddwyd ar waith i gario ymlaen â gwaith y Gorfforaeth Ddatblygu i adfywio ardal bae Caerdydd. Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad.

3.34 Yr adroddiad hwn oedd yr ail mewn cyfres o dri adroddiad am adfywio Bae Caerdydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf, sef Morglawdd Bae Caerdydd, ar 15 Chwefror 2001 ac roedd yn canolbwyntio ar adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd.  Bydd y trydydd adroddiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o waith blwyddyn gyntaf y gwahanol gyrff sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny a arferai gael eu gwneud gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

3.35 Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesiad cyffredinol o'r broses a arweiniodd at ddirwyn gweithgareddau'r Gorfforaeth Ddatblygu i ben ac roedd yn ystyried y canlynol yn fwy manwl

- gwerthu tir y Gorfforaeth Ddatblygu ar safle Ferry Road
- y penderfyniad i roi'r cyfrifoldeb am reoli Morglawdd Bae Caerdydd a'r Bae ei hun o ddydd i ddydd i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd
- taliadau sefydlu i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

3.36 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad cyffredinol canlynol:

*"Roedd hi'n amlwg ei bod hi'n her sylweddol i ddirwyn materion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben yn daclus a gosod trefniadau olynol priodol yn eu lle.  Roedd angen llawer o drafodaethau anodd, gyda help y Cynulliad, rhwng y Gorfforaeth Ddatblygu a'i phedwar corff olynol penodedig.  Ar un*

*llaw, roedd y broses hon yn llwyddiant. Fe'i cwblhawyd mewn amser i gwrdd â'r dyddiad targed ar gyfer dirwyn i Gorfforaeth Ddatblygu i ben ac nid oedd unrhyw beth mawr ar ôl i'w wneud pan drosglwyddwyd cyfrifoldebau.*

*Er hynny, ffordd arall o fesur llwyddiant, a ffordd llawer mwy pwysig, yw p'un a fydd y trefniadau a bennwyd ar 1 Ebrill 2000 yn sicrhau adfywiad parhaus a chynaliadwy o amgylch Bae Caerdydd ac a fydd yn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau sylweddol y mae'r Cynulliad wedi'i fuddsoddi ac y mae'n parhau i'w fuddsoddi yn yr ardal. Er ei bod hi'n rhy gynnar i ddod i gasgliad pendant ar hyn, mae'n amlwg bod yna berygl na fydd modd sicrhau gwerth am arian. Cawsom ein hargyhoeddi, fodd bynnag, bod swyddogion y Cynulliad yn ymwybodol o hyn ac rydym yn dibynnu arnynt i fonitro gweithgareddau cyrff olynol y Gorfforaeth Ddatblygu yn wyliadwrus, ac yn uniongyrchol os bydd angen, er mwyn sicrhau bod nodau'r Cynulliad ar gyfer ardal Bae Caerdydd yn cael eu cyflawni yn y pen draw."*

3.37 Croesawodd Cabinet y Cynulliad yr adroddiad a rhoddodd ymateb manwl i'r argymhellion a wnaed ynddo. Roedd yr ymateb yn cynnwys nifer o gamau penodol gan gynnwys ymrwymiad i gynnal gwerthusiad trylwyr o adfywiad Bae Caerdydd yn ystod 2003-04, ac ymrwymiad i baratoi canllawiau canolog ar y broses o gau, ad-drefnu neu ailstrwythuro cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

3.38 Hefyd, rhoddodd y Cabinet wybodaeth fanwl mewn ymateb i gais y Pwyllgor am eglurhad am rai materion penodol, megis:
I ba raddau y gall y Cynulliad ddylanwadu ar weithgareddau Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a gweithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (argymhelliad viii) - ymateb y Cabinet oedd:

> *"Ers mis Mawrth 2000 mae Caerdydd a Chynghorau'r Fro wedi adennill y cyfrifoldeb dros adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn yr holl ardal gan gynnwys Bae Caerdydd sydd â mynediad, fel rhannau eraill o Gymru, at wasanaethau Awdurdod Datblygu Cymru a chyrff datblygu economaidd eraill.*
>
> *Mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gymeradwyo rhaglen adfywio Cyngor Caerdydd. Bydd hon wedyn yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Er mai cyfeirio at gynigion Cyngor Caerdydd am y swm o £150,000 ar gyfer 'adfywio' y mae hon, derbyniwyd rhywfaint o gyllid trosiannol i alluogi iddynt gwblhau nifer o brosiectau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ac maent yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am fuddsoddiadau eraill yn y Bae ar wahân i'r trefniadau ariannu hyn."*

3.39 Yn ei asesiad o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod ar y cyfan yn adeiladol ac yn gadarnhaol, ond mynegodd sylwadau ar ddau fater. Roedd y sylw cyntaf yn ymwneud â hawl yr Archwilydd Cyffredinol i weld cofnodion Awdurdod Harbwr Caerdydd.

3.40 Yn ei adroddiad, pwysleisiodd y Pwyllgor pa mor bwysig oedd hi fod yr Archwilydd Cyffredinol yn cael gweld holl lyfrau a chofnodion Awdurdod yr Harbwr yn ddirwystr, ac ategwyd hyn gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei hymateb hithau. Serch hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael anhawster i weld y cyfryw lyfrau a chofnodion a thrafodwyd y mater gan y Pwyllgor mewn sawl cyfarfod dilynol. Erbyn hyn, mae'r mater wedi'i ddatrys, ond mae'r Pwyllgor yn anfodlon bod cymaint o amser wedi'i dreulio yn pennu'r hyn sydd, yn ei farn ef, yn amlwg yn hawl yr Archwilydd Cyffredinol i weld y llyfrau a'r cofnodion.

3.41 Roedd yr ail sylw yn ymwneud ag argymhelliad y Pwyllgor y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried a ddylai asesu'r trefniadau presennol ar gyfer delio ag achosion o wrthdaro posibl neu ddeuoliaeth buddiannau. Yn ei ymateb, ategodd y Cabinet yr egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad, ond yr oedd o'r farn bod y canllawiau presennol ar wrthdaro buddiannau yn effeithiol a chadarn.

Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru

3.42 Mae sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn gwario tua deg ar hugain y cant o'u harian ar gaffael nwyddau a gwasanaethau, ac yn 1999-2000 roedd hynny tua £79 miliwn. Roedd yr adroddiad hwn yn archwilio a oedd caffael yn sicrhau'r gwerth gorau am arian, ac roedd hynny'n dilyn gwaith a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 1999 a oedd wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o arbed llawer iawn trwy wella arferion caffael. Ar ôl ystyried adroddiad a luniwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Gorffennaf 1999, 'Addysg Bellach yng Nghymru', argymhellodd y Pwyllgor Archwilio bod yr Archwilydd Cyffredinol yn adrodd yn ôl ar sut yr oedd y sector addysg bellach yn dod yn ei flaen o ran gwella ei brosesau caffael nwyddau a gwasanaethau.

3.43 Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar adeg pan oedd caffael yng Nghymru yn gyffredinol yn cael ei archwilio. Ym mis Ebrill 2000, gofynnodd y Gweinidog Cyllid am adolygiad eang ei gwmpas o gaffael ar draws y sector cyhoeddus. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Uned Gaffael y Cynulliad dan oruchwyliaeth Grwp Llywio o uwch gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Cafodd adroddiad drafft y tîm adolygu, *Gwell Gwerth Cymru: Adolygiad o Gaffael yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru*, ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2001.

3.44 Bu'r Pwyllgor Archwilio yn gwrando ar dystiolaeth oddi wrth Steve Martin, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa); Arwel Thomas, Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth ELWa; David Richards, Cadeirydd y Grwp Llywio a fu'n ymwneud â'r adolygiad o gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru; a Paul Skellon, Tîm Adolygu Caffael y Cynulliad.

3.45 Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar dri prif faes: datblygu Consortiwm Caffael Addysg Bellach yng Nghymru; agweddau eraill ar arfer da wrth

gaffael; a'r posibilrwydd o sicrhau arbedion yn y dyfodol yn y sector addysg bellach yng nghyd-destun adolygiad caffael ehangach y Cynulliad.

3.46 Gwnaed nifer o argymhellion i'r Cyngor ac i sefydliadau addysg bellach i sicrhau y gwneir mwy o welliannau, ac i sicrhau arbedion eraill a fydd drwy hynny yn rhyddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. I gloi, roedd yr adroddiad yn ystyried y cynnydd cyffredinol a wnaed gan sefydliadau mewn dau faes pwysig, heblaw am gaffael, yr ymdriniwyd â hwy yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 1999: rheolaeth ariannol a darparu cyrsiau Cymraeg a dwyieithog.

3.47 Wrth gloi'r adroddiad, dywedodd y pwyllgor:

*"Yn ddiau, bu peth cynnydd wrth wella arferion caffael ers adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 1999, a gwnaed rhai arbedion ariannol gwerth-chweil. Fodd bynnag, mae'n blir bod yna gryn waith i'w wneud gan y sector i sicrhau bod gan bob sefydliad strategaethau ar gyfer gwella caffael, cyfle i ddefnyddio'r arbenigedd sydd ei angen a systemau rheoli gwybodaeth i fonitro cynnydd. Mae'r sector wedi gwneud dechrau addawol, ond mae'n glir ei bod yn bosibl sicrhau mwy o arbedion eto yn y sector drwyddi draw. Dim ond drwy gyfuniad o ymdrech benderfynol ar ran y sefydliadau unigol a chefnogaeth ac anogaeth y Cyngor y gellir cyflawni hyn. Rydym yn edrych ymlaen at glywed gan y Cyngor ymhen blwyddyn am y cynnydd y mae'r sector addysg bellach yng Nghymru yn ei wneud i gyrraedd y targed y mae wedi pennu iddo'i hun o ran sicrhau arbedion."*

3.48 Croesawyd yr adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ei hymateb eglurodd pa bethau oedd yn cael eu gwneud gan y sector addysg bellach i wella ei arferion caffael, yn unol â'r mentrau oedd yn cael eu datblygu gan Dîm Menter Caffael y Cynulliad; a rôl y Cyngor Cenedlaethol o ran sicrhau bod y gwelliannau yn cael eu gwireddu, yn enwedig trwy roi cefnogaeth i ddatblygu Consortiwm Caffael Addysg Bellach yng Nghymru.

3.49 Ymhlith y gwaith oedd ar y gweill neu wedi'i gynllunio roedd:

- Cynllun strategol ar gyfer Consortiwm Caffael Addysg Bellach yng Nghymru, a oedd wedi ehangu ac wedi cynyddu nifer ei gontractau
- Roedd pob sefydliad addysg bellach wedi cael canllawiau ac fe'i gwnaed yn ofynnol iddynt baratoi strategaethau caffael gyda thargedau penodol. Dylai'r strategaethau ddweud sut y byddent yn rhoi Gwerth Gorau ar waith, a disgrifio eu polisïau a'u trefniadau ar gyfer adolygu eu rhestr o gyflenwyr
- Mae sefydliadau wedi cael eu hannog i ddefnyddio busnesau Cymreig lleol os mai'r rheini oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian
- Roedd defnyddio e-gaffael hefyd yn cael ei dreialu
- Gofynnwyd i'r sefydliadau ofalu bod ganddynt arbenigedd priodol mewn caffael, ac erbyn hyn roedd swyddogion caffael arbenigol mewn saith sefydliad. Lle nad oedd hyn yn gost-effeithiol, dylent ystyried dewisiadau eraill megis trefniadau cydweithredol neu gael arbenigedd o'r tu allan o dan gontract

- Er mwyn gwella'r ffordd y caiff ynni ei reoli, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar reoli ynni gan ddefnyddio astudiaeth berthnasol o'r gwerth am arian a wnaed yn sector addysg bellach y DU, a thynnu sylw'r sefydliadau at yr ystadegau meincnodi presennol ar ynni

3.50 Derbyniodd y Cabinet argymhelliad y Pwyllgor i archwilio a yw'r model presennol ar gyfer y sector addysg bellach, o golegau fel cyrff annibynnol ymreolus, yn dal yn briodol, gan ailadrodd argymhelliad a wnaed mewn adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor ar *Goleg Gwent.* Serch hynny, nid oedd ei ymateb yn awgrymu bod adolygiad yn debygol o gael ei gynnal ar unwaith a fyddai'n arwain at newid sylfaenol yn y trefniadau presennol, a byddai angen prif ddeddfwriaeth i newid y trefniadau.

3.51 Ym mis Ebrill 2003, bydd y Cyngor yn rhoi adroddiad cynhwysfawr I'r Pwyllgor Archwilio am y datblygiadau diweddaraf, gan gynnwys hynt yr arbedion sy'n cael eu gwneud gan y sector. Gan fod y pwnc mor bwysig, mae rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian ar gyfer 2002-2003 yn cynnwys archwilio caffael ym maes addysg uwch, a thrwy hynny alluogi'r Pwyllgor I gymharu ansawdd y caffael yn y sector addysg uwch ac addysg bellach.

Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol

3.52 Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y prosiect loteri mawr cyntaf i Gyngor Celfyddydau Cymru ei gefnogi a dychmygwyd y byddai'n atyniad pwysig i dwristiaid. £8.8. miliwn oedd cyfanswm y gost o agor y Ganolfan, gan gynnwys y gwaith adnewyddu sylweddol i adeilad yr Hen Lyfrgell. Cyfrannodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £3.2 miliwn o arian loteri tuag at y swm hwn (sef tua 37 y cant o'r costau i gyd) a rhoddodd hefyd dros £200,000 y flwyddyn i helpu i ariannu costau rhedeg blynyddol y Ganolfan. Agorodd y Ganolfan ei drysau i'r cyhoedd ym mis Medi 1999 ond oherwydd anawsterau ariannol a achoswyd yn bennaf am fod nifer yr ymwelwyr lawer yn is na'r disgwyl, caeodd y Ganolfan 14 mis wedi hynny ym mis Tachwedd 2000.

3.53 Ar sail adroddiad a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, cafwyd tystiolaeth gan Mr Peter Tyndall, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Cyngor Celfyddydau Cymru, a gefnogwyd gan Ms Francis Medley, y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyn Brif Weithredwr dros dro; a Mr Rhys Parry, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan unigolion a chwaraeodd ran yn rhannau cynharaf y prosiect: Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, a oedd hefyd yn Swyddog Cyfrifo Cyngor Celfyddydau Cymru o Medi 2000 i Medi 2001; Mr Emyr Jenkins, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-1998; Ms Joanna Weston, Cyfarwyddwr Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-98 a Phrif Weithredwr 1998-2000; Mr Robert Edge, Cyfarwyddwr Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru 1998-2001; a Syr Richard Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-99. Derbyniwyd bod y bobl hyn, ac eithrio Mr Shortridge, yn unigolion preifat heb unrhyw ran ym materion cyfredol Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y

Pwyllgor yn ddiolchgar iddynt am fod yn bresennol i gyflwyno'u safbwynt ar y gwersi sydd i'w dysgu.

3.54 Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar benderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol; a'r ffordd yr aeth ati i fonitro'r gwaith o ddatblygu, rhedeg a chau Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad ar ddeg, a chasgliad yr adroddiad oedd:

*"Roedd cau Canolfan y Celfyddydau Gweledol ar ôl dim ond 14 mis yn golled fawr i Gaerdydd ac i Gymru. Mae'r £3.7 miliwn a fuddsoddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y Ganolfan yn arian sydd wedi'i golli i brosiectau celf eraill yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod cyflwyno arian loteri wedi golygu newid mawr yng ngweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, gan fwy na dyblu'r arian a ddosberthir i'r celfyddydau yng Nghymru, ac mae'n amlwg nad oedd gan Gyngor y Celfyddydau y profiad i fynd i'r afael â phrosiectau cyfalaf o'r maint hwn. Mae wedi dysgu llawer o wersi dros y degawd diwethaf o ganlyniad i'r camgymeriadau a wnaed mewn perthynas â'r arian loteri hwn a roddwyd yn gynnar.*

*Ni ddilynodd Cyngor Celfyddydau Cymru arferion gorau drwy asesu'r ceisiadau'n drylwyr a monitro'r prosiect drwy'r cyfnod datblygu ac ar ôl iddo agor. Ni wnaeth yn siwr bod y prosiect yn seiliedig ar achos busnes cadarn, realistig a chall, ond derbyniodd yn hytrach ffigurau'n seiliedig ar ymchwil yr ymgymerwyd ag ef ryw dair blynedd yn ôl cyn cyflwyno'r cais cyntaf am arian loteri. Nid aeth Cyngor y Celfyddydau ati i herio dibynadwyedd y ffigurau o ran nifer amcangyfrifedig yr ymwelwyr, nac i ystyried hyfywedd ariannol y prosiect pe na bai'n cyrraedd y targedau hyn. Yn ogystal, roedd y cynlluniau a'r amcangyfrifon o ran adeiladu yn annigonol, cymaint felly fel bod cynnydd o £1.8 miliwn yng nghost yr adeilad.*

*Rydym yn cytuno ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef bod elfen o risg ym mhob prosiect. Nid dweud yr ydym y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru ac eraill sy'n dosbarthu arian loteri osgoi cefnogi prosiectau sydd â risg ynghlwm wrthynt. Fodd bynnag, nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn effro i'r risgiau i hyfywedd ariannol prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ac roedd ei ddull o fonitro'r prosiect, drwy'r cyfnod datblygu ac ar ôl iddo agor, yn wan am nad oedd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Tynnwyd sylw Cyngor y Celfyddydau at bryderon a oedd yn effeithio ar hyfywedd ariannol y prosiect, ond methodd â sicrhau bod yr ymgeisydd yn cymryd camau cyflym ac effeithiol i ddelio â'r pryderon hyn. Pan gaeodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ar ôl dim ond pedwar mis ar ddeg, dim ond £100,000 o asedau'r Ganolfan a oedd wedi'u hadennill er mwyn eu rhoi i sefydliadau celf eraill yng Nghymru.*

*Dywedodd llawer o'r tystion fod gweithdrefnau Cyngor Celfyddydau Cymru bellach wedi cael eu cryfhau er mwyn osgoi problemau o'r fath yn y dyfodol. Rydym yn falch o glywed bod gwersi wedi'u dysgu ond bydd angen inni fod yn fodlon bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu harfer bob amser ac yn y ffordd fwyaf effeithiol. Byddwn yn disgwyl i Archwilydd Cyffredinol Cymru brofi pa*

*mor ddigonol yw'r gweithdrefnau diwygiedig y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn awr wedi'u cyflwyno."*

3.55 Yn ei ymateb i'r Pwyllgor, roedd y Cabinet yn ddiolchgar am yr adroddiad ac roedd yn cefnogi'n llwyr 11 argymhelliad y Pwyllgor Archwilio i Gyngor Celfyddydau Cymru. Rhoddwyd ymateb manwl i'r argymhellion. I grynhoi, roedd y Cabinet yn ffyddiog bod gweithdrefnau'r Cyngor yn awr yn fwy trylwyr a'u bod yn ymateb i unrhyw anawsterau a all godi ac y byddai'r gweithdrefnau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yng ngoleuni'r adolygiad a gomisiynodd y Cyngor gan Deloitte Touche i ystyried ei weithdrefnau ar gyfer monitro grantiau, yn ogystal â ffrwyth adolygiadau a gaiff eu cynnal yn y dyfodol, megis yr Adolygiad Pum Mlynedd ac adolygiad y Cyngor ei hun o'i strwythur newydd yn ystod haf 2003.

3.56 Daeth adolygiad Deloitte Touche i'r casgliad bod y systemau oedd yn eu lle ar gyfer monitro prosiectau yn gweithio'n dda a bod gweithdrefnau ysgrifenedig y Cyngor, ar y cyfan, yn cael eu dilyn. Tynnodd sylw at y posibilrwydd o wneud gwelliannau pellach i'r dull o weinyddu a monitro prosiectau a chynigiodd nifer o argymhellion eang eu cwmpas. Roedd y Cyngor Celfyddydau yn bwriadu cryfhau ei weithdrefnau monitro ariannol, gan dalu sylw i argymhellion y Pwyllgor Archwilio ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ogystal â'r adolygiad gan Deloitte Touche.

3.57 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal archwiliad arall o Gyngor Celfyddydau Cymru i asesu i ba raddau y mae'r gwersi wedi eu dysgu. Bydd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn monitro sut mae'r Cyngor yn dod yn ei flaen o ran gweithredu'r ymrwymiadau a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd y gwaith dilynol sydd ar y gweill yn gyfle arall i'r Pwyllgor ystyried pa waith a wnaed eisoes.

<u>Rheoli ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru</u>

3.58 Mae ystad GIG Cymru yn cwmpasu dros 1,000 o hectarau o dir ac yn cynnwys tua 900 eiddo. Gwerth llawn presennol yr ystad sydd ym meddiant ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd adeg yr adroddiad hwn oedd tua £1.2 biliwn ac mae'n hanfodol bod yr asedau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol ac effeithlon.

3.59 Ar sail adroddiad a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, cafwyd tystiolaeth gan Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru, sydd â chyfrifoldeb ar ran y Cynulliad cyfan dros reoli ystad y GIG yn strategol. Mewn gwrandawiad ar wahân cafwyd tystiolaeth hefyd gan Keith Thomson, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru; John Potts, Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru; Martin Turner, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Roeddent yn cynrychioli dwy ymddiriedolaeth oedd wedi cael ymweliad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ystod eu hadolygiad o reolaeth yr ystad.

3.60 Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod ymddiriedolaethau wedi wynebu cryn dipyn o bwysau dros y blynyddoedd diwethaf gyda blaenoriaethau cystadleuol ac ailgyflunio, a bod hanner yr ymddiriedolaethau wedi gorfod dilyn cynlluniau adfer ariannol. Mae'r heriau hyn wedi bod yn gyfle i symleiddio'r gwasanaethau a chreu ffyrdd newydd o weithio'n fwy effeithlon a gostwng diffygion ariannol - ffactorau sydd wedi effeithio ar holl weithgareddau'r ymddiriedolaethau gan gynnwys rheoli ystad y GIG. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar dri prif faes: yr arweiniad strategol a ddarparwyd gan y Cynulliad; rheoli ystad y GIG ar lefel ymddiriedolaeth; a pherfformiad ystad GIG Cymru.

3.61 Yn ei gasgliadau, dywedodd y Pwyllgor:

*"Mae ystâd y GIG yng Nghymru yn ased gwerthfawr, sy'n ganolog i ofal claf effeithiol ac sydd werth tua £1.2 biliwn ar sail ei ddefnydd presennol a rhyw £4 biliwn i'w ailosod yn newydd. Rydym yn cydnabod yr angen i fuddsoddi yn yr ystâd yng nghyd-destun anghenion gwasanaethau pobl Cymru yn gyffredinol. Rydym yn siomedig ynglyn â'r diffyg gafael strategol yn y gorffennol ond yn falch fod hyn yn cael ei unioni trwy ddatblygu fframwaith strategol ystadau gwladol a strategaethau ymddiriedolaethau.*
*Mae perfformiad ystâd y GIG yng Nghymru yn parhau'n bryder i ni ond rydym yn falch o weld bod system rheoli perfformiad newydd wedi'i chyflwyno. Rydym yn disgwyl y bydd hon yn galluogi ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i sylweddoli yn ymarferol yr arbedion posibl a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol trwy ddefnyddio'r ystâd yn well a buddsoddi yn ôl targedau priodol. Edrychwn ymlaen at welliannau real yng nghyflwr eiddo a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau iechyd i bobl Cymru."*

3.62 Yn yr adroddiad gwnaed 17 o argymhellion i'r Cynulliad ac ymddiriedolaethau'r GIG i'w helpu i reoli'r asedau pwysig a gwerthfawr hyn.

3.63 Croesawodd y Cabinet ganfyddiadau'r adroddiad presennol, ac yn ei ymateb nododd mai diben y Fframwaith Strategol Ystadau Cenedlaethol newydd oedd creu strwythurau, systemau a diwylliant lle gellir datblygu a gweithredu cynlluniau iechyd go-iawn. Roedd y fframwaith yn nodi'r gweithgarwch am y blynyddoedd nesaf, a byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud - yn seiliedig ar y camau allweddol a'r targedau perfformiad - yn cael eu monitro trwy gyfuniad o Adolygiadau Blynyddol Strategol o'r Ystadau ac adolygiadau'r Cyfarwyddwr o'r Prif Weithredwyr.

3.64 Byddai cyflwyno System Rheoli Perfformiad ar gyfer Ystadau a Chyfleusterau yn gyfle i ddeall yn fwy trylwyr sut mae mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw wrth gefn a helpu i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn well. Roedd Adran GIG Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Roedd gwaith hefyd ar y gweill i gyrraedd y targedau arbed ynni.

3.65 Gofynnwyd i'r Ymddiriedolaethau gyflwyno strategaethau ar gyfer eu hystad erbyn mis Rhagfyr 2002, gan gynnwys arolygon llawn o'r defnydd a wneir o le. Roedd yn ofynnol i'r holl strategaethau ar gyfer yr ystadau gynnwys cynlluniau gwaredu ac ad-drefnu a byddai'r System Rheoli Perfformiad newydd yn help i'r Ymddiriedolaethau weld ym mhle y gellir ad-drefnu. Byddai'r gwaith ad-drefnu yn cael ei fonitro fel rhan o'r Cyfarfod Adolygu Strategol Blynyddol rhwng yr Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaethau.

3.66 Mae archwiliad arall ar y gweill gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i ymdrechion GIG Cymru i ad-drefnu daliadau ei ystad trwy ddarparu cyfleusterau gofal iechyd newydd a mwy diweddar a chael gwared â thir ac adeiladau nad oes eu hangen.

3.67 Nod un o argymhellion yr adroddiad oedd annog Adran GIG Cymru i ystyried alinio ei chyllidebau cyfalaf gyda phroses dair blynedd ehangach y Cynulliad o ddyrannu cyllidebau. Yn ei ymateb ni wnaeth y Cabinet unrhyw ymrwymiad pendant i ystyried sut i wella'r broses o lunio'r cyllidebau cyfalaf a gwariant i'w gwneud yn fwy clir i'r ymddiredolaethau GIG faint o gyllid fydd ar gael y dyfodol, a thrwy hynny eu galluogi i fynd i'r afael â phroblemau cynnal a chadw pwysig yn fwy effeithiol ac effeithlon. Serch hynny, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi cadarnhau y bydd adolygiad trwyadl Adran GIG Cymru o'i systemau cynllunio cyfalaf yn cynnwys y posibilrwydd o wella'r cyllidebau cyfalaf a'r trefniadau gwariant.

3.68 Wrth fonitro hynt y gwaith o weithredu'r holl ymrwymiadau a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn talu sylw arbennig i'r camau y mae Adran GIG Cymru yn eu cymryd i sicrhau'r arbedion ariannol posibl a glustnodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac sydd, ym marn y Pwyllgor, yn bwysig i ryddhau cyllid newydd ar gyfer buddsoddi o'r newydd yn yr ystad weithredol.

## 4 GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN Y DYFODOL

4.1 Gellir cael manylion am waith y Pwyllgor Archwilio rhwng mis Medi 2002 a mis Ionawr 2003 isod. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr archwiliadau y mae'r Pwyllgor yn bwriadu eu cynnal ym mis Chwefror a Mawrth 2003.

**GWEITHGARWCH ERS MIS MEDI 2002**

4.2 Ers mis Medi 2002, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi tri adroddiad:

- Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001
- Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a Ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru
- Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru

<u>Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac archwiliadau'r Rhaglen Gwerth am Arian 2003-2004</u>

4.3 Cyflwynwyd Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2003-2004 i'r Pwyllgor ar 24 Hydref 2002, a gwelwyd cynnydd o £177,000 ers y flwyddyn flaenorol. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr amcangyfrif.

4.4 Ystyriodd y Pwyllgor hefyd Raglen Gwerth am Arian arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 24 Hydref 2002. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr archwiliadau Gwerth am Arian arfaethedig, ond roedd yn gobeithio y gellid rhoi mwy o flaenoriaeth yn yr amserlen i rai o'r archwiliadau y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2003-2004. Y pynciau y cytunwyd arnynt yn y pen draw ar gyfer rhaglen yr archwiliadau Gwerth am Arian yn 2003-2004 oedd:

- amseroedd aros yn y GIG
- caffael cyfleustodau yn y GIG
- mynd i'r afael â thrais yn y GIG
- amddiffyn rhag llifogydd
- rheoli absenoldebau staff oherwydd salwch mewn addysg bellach ac uwch
- defnyddio grantiau'n effeithiol ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd
- Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd – archwiliad dilynol
- taliadau iawndal y diciâu
- arian loteri'r Cyngor Chwaraeon

**Archwiliadau Ariannol**

Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001

4.5 Ar 27 Mawrth 2002, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei Adroddiad Cyffredinol, a oedd yn crynhoi ffrwyth ei archwiliadau ariannol. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad hwn, ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Gyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000-01. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, Mr David Richards, y Prif Swyddog Cyllid a Mr Laurie Pavelin, Pennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol.

4.6 Roedd adroddiad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- themâu sy'n codi o lythyrau rheoli 2000-01 Swyddfa Archwilio
- genedlaethol Cymru 2000-01
- y gwariant a ariannwyd gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
- threfniadau cyfrifo a chyllidebu y Cynulliad Cenedlaethol

4.7 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod i bob un, namyn un, o'r 32 o gyfrifon a archwiliodd ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-01. Yr unig eithriad oedd Cyfrifon Cryno yr Awdurdodau Iechyd, a ystyriwyd gennym ar wahân yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyfrifon GIG Cymru 2002.

4.8 Gwnaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 153 o argymhellion i reolwyr y cyrff sy'n cael eu harchwilio yng Nghymru yn 2000-01, o'i gymharu â 116 yn 1999-00. O'r rhain, cafodd 78 (51 y cant) eu dosbarthu fel "Blaenoriaeth 1", yn galw i'r rheolwyr weithredu ar unwaith. Daeth y mwyafrif helaeth o'r argymhellion hyn i'r amlwg am y tro cyntaf yn ystod 2000-01 er bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi dau enghraifft o argymhellion blaenorol na weithredwyd arnynt.

4.9 Hefyd, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar ddwy thema a ddeilliodd o adroddiadau 2000-01 i'r rheolwyr, sef

- Cymeradwyo a monitro grantiau
- Rheoli arian parod

4.10 Ar gymeradwyo a monitro grantiau, nodwyd yn yr adroddiad bod gan Lywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir ddyletswydd i sicrhau bod ceisiadau a hawliadau yn cael eu dogfennu yn gywir a bod monitro digonol yn cael ei wneud er mwyn lleihau'r risg na fydd gwariant afreolaidd yn cael ei ddarganfod. Ni fyddai methiant yn hyn o beth yn dderbyniol a gallai'r canlyniadau posibl fod yn ddifrifol. Argymhellwyd:

*"Rydym felly yn annog Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ar unwaith ar unrhyw fethiant a ddaw i'r golwg, i adolygu gweithrediad y prif gynlluniau*

*grant yn rheolaidd ac i ddarparu rhaglen hyfforddi systematig ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â gweithgareddau cymeradwyo a monitro grant."*

4.11 Ar reoli arian parod, nodwyd yn yr adroddiad bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at nifer o broblemau gan gynnwys methu â chynhyrchu cysoniadau banc amserol, cyfrifon banc wedi'u gordynnu, sieciau wedi'u camosod a defnyddio debyd uniongyrchol heb awdurdod. Mewn ymateb i gwestiynau ar y pwnc hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai digwyddiad untro yn unig oedd y cyfrif wedi'i ordynnu a bod y symiau sy'n gysylltiedig â debyd uniongyrchol sydd heb eu hawdurdodi a sieciau wedi'u camosod yn gymharol fach. Rhannodd bryderon y Pwyllgor bod y methiannau yn ddifrifol, mewn egwyddor, ac na ddylent fod wedi digwydd. Argymhellwyd yn yr adroddiad:

"*Disgwyliwn i holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru roi sylw penodol i'w trefniadau ar gyfer rheoli arian parod, sydd yn ein barn ni yn sylfaenol i'w rheolaeth ariannol. Yn benodol, dylai pob cyfrif banc gael ei gysoni mewn modd amserol a dylid cymryd gofal i osgoi gorddrafft, sieciau wedi'u camosod a defnyddio debyd uniongyrchol heb awdurdod."*

4.12 Wrth roi sylwadau ar y ffordd yr oedd y Cynulliad yn rheoli gwariant sy'n cael ei ariannu o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, nododd y Pwyllgor gyda phryder bod angen i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru roi cymeradwyaeth amodol i wyth allan o'r 24 o dystysgrifau archwilio a roddwyd mewn perthynas â cheisiadau am arian grant Ewropeaidd a wnaed gan y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, yn enwedig gan fod llawer o'r gwallau wedi codi oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth ymhlith rhai rheolwyr prosiect o'r rheolau manwl sy'n llywodraethu cynlluniau grant Ewropeaidd. Argymhelliad y Pwyllgor oedd:

*"Er ein bod yn cydnabod bod WEFO yn gweithio i wella ansawdd y cyngor a'r canllawiau a ddarperir i reolwyr prosiect, rydym yn ei hannog i weithio'n agosach gyda staff yn y cyrff cyhoeddus perthnasol a noddir i sicrhau bod gwallau o'r fath yn cael eu cadw i'r lleiaf yn y dyfodol."*

4.13 Yn yr adroddiad, gwnaed y sylwadau canlynol ar drefniadau cyfrifo a chyllidebu y Cynulliad Cenedlaethol:

*"Rydym yn falch iawn o nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gyda chyfrifo ar sail adnoddau a pharatoi ar gyfer cyflwyno cyfrifon "llywodraeth gyfan", sydd yn ôl ein dealltwriaeth ni, yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Yn y cyd-destun hwn rydym yn nodi bod yr angen i gyfuno canlyniadau ariannol llawer mwy o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol yn debygol o olygu y bydd pwysau sylweddol yn cael eu rhoi ar y Grwp Cyllid er mwyn gallu bodloni'r terfynau amser statudol. Rydym yn gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyllid yn parhau i sicrhau bod y camau pwysig hyn yn cael eu gweithredu gan staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas."*

4.14 Y casgliad cyffredinol yn yr adroddiad oedd:

*"Rydym yn falch bod yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod safonau rheoli ariannol a gonestrwydd yn parhau yn uchel yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cytuno bod hyn yn dyst i waith caled a diwyd y swyddogion ar bob lefel o fewn y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus perthnasol.*

*Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fodd bynnag, wedi rhoi rhybudd cynnar yn enwedig mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer hawlio grantiau a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Rydym yn annog Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru a'r holl gyrff sy'n ymwneud â phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan gyllid Ewropeaidd i ystyried y rhybudd ac i gymryd camau i sicrhau bod y ffynhonnell hanfodol hon o gyllid yn cael ei rheoli'n gywir er lles Cymru."*

4.15 Mae argymhellion manwl yr adroddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad F.

4.16 Hyd yn hyn nid yw'r Cabinet wedi cyhoeddi ei ymateb i'r adroddiad hwn.

**Gwerth am arian**

Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru

4.17 Ar 5 Rhagfyr 2002, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru. Yn yr adroddiad, ystyriwyd y trefniadau ar gyfer rheoli Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi'u dyrannu i Gymru ar gyfer y cyfnod o saith mlynedd rhwng 1 Ionawr 2000 a 31 Rhagfyr 2006.

4.18 Seiliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad ar adroddiad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a bu'n gwrando ar dystiolaeth gan bedwar o swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO): John Clarke, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifo; Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth; Phil Gray, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Cynnal; a Sheila Maxwell, Cyfarwyddwr Is-adran Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

4.19 Yn yr adroddiad ystyriwyd sut yr aed ati i ddatblygu strategaeth ac i reoli'r Cronfeydd mewn tri maes cyffredinol:

- datblygu strategaeth a strwythurau rheoli sylfaenol
- datblygu a dethol prosiectau
- monitro, rheoli a gwerthuso rhaglenni pan fydd grantiau wedi cael eu cymeradwyo

4.20 I gloi'r adroddiad, gwnaed y sylwadau canlynol:

*"Gall Cymru elwa o werth £1.4 biliwn o gronfeydd strwythurol yn ystod y cyfnod 2000-06. Mae'n hanfodol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle unigryw hwn i helpu i adfywio'r economi, yn benodol yn ardal Amcan 1 y*

*Gorllewin a'r Cymoedd, a fydd yn derbyn swmp yr arian. Cafodd rhaglen Amcan 1 ddechrau anodd: yn sgil diffyg fframwaith rheoli y cytunwyd arno o'r cychwyn cyntaf ac oherwydd y brys i lansio'r rhaglen, bu pawb a fu'n ymwneud â hi dan bwysau mawr. Mae WEFO a'i phartneriaid yn parhau i geisio datrys y problemau a fu'n nodweddu'r cyfnod hwnnw: diffyg canllawiau i ymgeiswyr a phartneriaid, amserau arfarnu hir iawn, system wybodaeth wael, a gwendidau yn y gweithdrefnau arfarnu, ymysg problemau eraill. Efallai ei bod yn anorfod y byddai'r ehangu sydyn a ddigwyddodd i'r Cronfeydd Strwythurol, ynghyd â newidiadau trefniadol mawr yn achosi anawsterau ar y dechrau ac y byddai'n cymryd amser i'w goresgyn. Nid ydym am roi gormod o sylw i'r anawsterau hyn, ond ein gobaith yw y bydd modd osgoi problemau difrifol o'r fath rhag digwydd yng nghylchoedd rhaglennu'r dyfodol.*

*Mae'n glir fod pethau wedi sefydlogi bellach a bod camau'n cael eu cymryd ar bob un o'r prif broblemau. Rydym yn arbennig o falch bod atebion integredig wrthi'n cael eu datblygu, sef y prif gronfeydd, comisynu prosiectau a gweithio ar lefel is-ranbarthol i flaenoriaethu prosiectau a chydgysylltu strategaethau. Dylai'r camau hyn helpu i deilwra proses gymhleth at anghenion penodol, gan ei gwneud yn haws i gyflawni amcanion. Dylai hefyd symleiddio proses gymhleth a allai atal cyrff rhag gwneud cais - gan helpu drwy hynny i gynnwys y sectorau gwirfoddol a phreifat mewn ffordd na fu'n bosibl hyd yn hyn. Rydym yn annog WEFO i gymryd mwy o gamau yn y cyswllt hwn, gan gadw'r prosesau a'r rheoliadau mor syml â phosibl er mwyn rhoi mwy o sylw i ganlyniadau yn hytrach nag i faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio a gweithdrefnau.*

*Mae dadneilltuo yn dal i fod yn fygythiad gwirioneddol, a gallai beryglu'r gronfa berfformiad wrth gefn. Mae'n hanfodol fod WEFO, y partneriaethau a noddwyr y prosiectau'n cydweithio i ddatblygu ac arfarnu prosiectau'n gyflym, i'w gweithredu ar amser ac i gyflwyno ceisiadau'n brydlon. Bydd angen i bob carfan fod â dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac o reolau'r rhaglenni. Bydd angen meithrin y ddealltwriaeth hon ymhellach, fel y mae'r problemau gyda cheisiadau hwyr a gwallus yn eu dangos. Yn olaf, ni ellir rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol oni bai fod gan WEFO system wybodaeth gadarn a chynhwysfawr. Rydym yn falch fod hon bellach ar waith, er ein bod yn pryderu na fu'n bosibl cadw unrhyw fath o olwg ar y gweithgarwch gwirioneddol tan yn awr.*

*Rydym yn croesawu'r ffaith bod WEFO wedi derbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a'i bod yn cymryd camau i'w rhoi ar waith. O ystyried pwysigrwydd y Cronfeydd Strwythurol i Gymru, rydym wedi gofyn iddo baratoi adroddiad arall maes o law er mwyn adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd i roi'r argymhellion hyn ar waith, ac adolygu'r sefyllfa o ran dadneilltuo."*

4.21 Ceir yr argymhellion manwl yn Atodiad F.

4.22 Cyhoeddodd Cabinet y Cynulliad ei ymateb i'r adroddiad ar 20 Rhagfyr 2002, gan groesawu canfyddiadau'r adroddiad.

4.23 Yn ei sylwadau ar ymateb y Cabinet, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru:

*"Croesawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganfyddiadau'r Pwyllgor Archwilio ac mae, ar y cyfan, wedi ymateb yn gadarnhaol i'r deunaw argymhelliad penodol a wnaeth y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i nodi'r sicrwydd na fydd cyllid yn cael ei ddadneilltuo o ganlyniad i'r diffygion yn y gwariant yn 2002 (argymhelliad xvi). Ac mae'n bleser gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gydweithio gyda WEFO ar y gwaith o adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer archwilio a rheolaeth ariannol, fel y nodir yn argymhelliad xiv.*

*Nid oes yr un o argymhellion y Pwyllgor wedi cael eu herio, er y gallai'r ymateb, mewn rhai achosion, fod yn fwy clir o ran pa gamau gaiff eu cymryd i weithredu argymhellion y Pwyllgor. Rhaid aros i weld a fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi'r argymhellion ar waith a pha mor gyflym y gwna hynny."*

4.24 Trafodwyd yr ymateb gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr a chytunodd y dyali'r Archwilydd Cyffredinol barhau i gadw llygad barcud ar y datblygiadau yn y maes hwn a chyflwyno adroddiadau pellach yn ôl y galw.

<u>Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru</u>

4.25 Ar sail adroddiad ar adnewyddu a gwaredu eiddo'r GIG a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, clywodd y Pwyllgor Archwilio dystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth Adran GIG Cymru; Neil Jones, y Prif Syrfëwr Ystadau yn Is-adran Ystadau'r Cynulliad; a Neil Davies, Cyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru.

4.26 Roedd yr ymchwiliad yn dilyn adroddiad blaenorol y Pwyllgor ar reoli'r ystad a'i pherfformiad. Mae'r ddau adroddiad yn rhoi asesiad llawn o'r dulliau o reoli ystad y GIG yn strategol ac yn weithredol.

4.27 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol: adnewyddu eiddo a gwaredu eiddo. Ceir yr argymhellion manwl yn Atodiad F.

4.28 I gloi'r adroddiad, rhoddir y sylwadau canlynol:

*“Mae moderneiddio a gwella ystad GIG Cymru yn ganolog I ddarparu gofal o ansawdd da I gleifion. Mae adnewyddu ystâd GIG Cymru yn her sylweddol I'r Cynulliad ac I gyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo. Mae'n allweddol bod yr adnoddau prin sydd ar gael ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd wedi'u targedu'n dda, a hynny'n gyson â'r blaenoriaethau strategol a'r anghenion lleol. Felly, rydym yn croesawu'r amryw o fentrau y mae Adran GIG Cymru a chyrff GIG*

*Cymru sy'n dal eiddo yn eu cynnal I wella'r cyd-destun strategol er mwyn adnewyddu'r ystâd, caffael cyfleusterau modern a monitro buddsoddiad cyfalaf.*

*Mae gwaredu eiddo dros ben yn allweddol ar gyfer rheoli ystâd GIG Cymru yn effeithiol, ac ar gyfer cyfrannu tuag at gyllido buddsoddiadau newydd. Er bod y perfformiad o ran sicrhau elw o werthiant wedi bod yn is na'r targed yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae trefniadau newydd o ran trefniadaeth, rheoli perfformiad a chymelldaliadau bellach wedi'u pennu. Dylai'r rhain ddechrau cael effaith o 2002-03 ymlaen. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn, a byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau sylweddol yn y dyfodol ym mherfformiad cyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo wrth enwi a gwerthu eiddo sydd dros ben.*

*Mae llawer ar yr agenda er mwyn sicrhau bod ysbytai a chanolfannau iechyd o ansawdd cyson dda ar gael I bobl Cymru, sy'n gallu darparu gofal iechyd o'r radd flaenaf. Byddwn yn parhau I fonitro cynnydd y Cynulliad a GIG Cymru yn y gwaith o reoli'r broses o foderneiddio a rhesymoli ystâd y GIG yng Nghymru."*

4.29 Ceir yr argymhellion manwl yn Atodiad F.

4.30 Yn ei ymateb, croesawodd y Cabinet yr adroddiad a derbyniodd yr holl argymhellion. Yn fwyaf arbennig, roedd y Cabinet yn adleisio pryder y Pwyllgor bod angen i Adran GIG Cymru weithio'n agos gyda'r cyrff hynny sy'n dal eiddo er mwyn gofalu eu bod yn cael eu gwaredu'n effeithiol. Roedd yr ymateb yn cyfeirio at y Fframwaith Strategol Ystadau Cenedlaethol, sy'n gydnabyddiaeth bod angen i ystod o gyrff, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, weithio gyda'i gilydd i sicrhau'r gwerth gorau o ran reoli ystad y GIG. Roedd yr ymateb hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2003 ar hynt y broses o gael gwared â gweddill yr ystad ac i arbed £30 miliwn trwy waredu eiddo.

4.31 Bydd y Pwyllgor yn trafod hwn yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

**YMCHWILIADAU SYDD EISOES AR Y GWEILL**

4.32 Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed tystiolaeth ar gyfer cyhoeddi nifer o adroddiadau eraill.

4.33 Ym mis Hydref 2002, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru.* Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ystyried gwybodaeth bellach a ddaeth i law ar ôl y sesiwn dystiolaeth a bydd yn rhoi adroddiad yn nes ymlaen y tymor hwn.

4.34 Ym mis Tachwedd 2002, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r

Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Osiris: Y Contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Gobeithiwn gyhoeddi'r adroddiad hwn cyn hir.

4.35 Ym mis Rhagfyr 2002, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Adeilad Newydd y Cynulliad Cenedlaethol: Adroddiad Diweddaru'

4.36 Ym mis Ionawr 2003, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Gyfrifon Blynyddol Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2002'

4.37 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar Ystadau Addysg Bellach yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2003, ac ar Gaffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2003.

**ATODIAD A**

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO - CYLCH GORCHWYL

**Dyfyniadau Perthnasol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**

**60**. - (1) Bydd y Cynulliad yn sefydlu pwyllgor a elwir yn Bwyllgor Archwilio neu Audit Committee.
(2) Bydd gan y Pwyllgor Archwilio nifer yr aelodau a ddarperir yn y rheolau sefydlog.
(3) Caiff aelodau'r Pwyllgor Archwilio eu hethol gan y Cynulliad o blith aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y Pwyllgor.
(4) Ni chaiff Prif Ysgrifennydd y Cynulliad nac Ysgrifennydd Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
(5) Bydd y Cynulliad yn ethol un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff aelod sy'n cynrychioli'r blaid fwyaf â rôl weithredol ei gadeirio.
(6) Ni chaiff y Cynulliad ddirprwyo unrhyw un o swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio ac eithrio fel a ddarperir gan adran 94(4).

**93.-** (4) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ôl blwyddyn ariannol gyntaf y Cynulliad, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd ac yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.
(5) Caiff pob amcangyfrif o'r fath ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.
(6) Bydd y Pwyllgor Archwilio yn archwilio pob amcangyfrif o'r fath a gyflwynir iddo ac, ar ôl gwneud hynny, bydd yn gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor yn barnu eu bod yn briodol.
(7) Lle bydd y Pwyllgor Archwilio yn bwriadu gosod amcangyfrif o'r fath gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, bydd y Pwyllgor yn gyntaf yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhoi sylw i unrhyw gyngor a roir ganddo.

**94.-** (1) Bydd y Cynulliad yn penodi archwilydd ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru.
(4) Caiff y Cynulliad ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio swyddogaeth cymeradwyo cyrff o gyfrifwyr, neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl oddi ar gyrff o'r fath, ond ni chaiff ddirprwyo'r swyddogaethau hynny fel arall.

**96.** - (3) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru -
(a) archwilio neu ardystio cyfrifon person neu roi adroddiad amdanynt, neu
(b) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person wrth iddo ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau, os gwneir darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru wneud hynny drwy gytundeb a wneir gan y person naill ai gyda'r Cynulliad neu gydag un o Weinidogion y Goron,

(4) Wrth ddyfarnu sut mae arfer ei swyddogaethau o dan baragraff (b) o isadran (3), bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Archwilio (neu, cyn yr etholiad cyffredin cyntaf, farn yr Ysgrifennydd Gwladol) ynglyn â'r ymchwiliadau y dylai eu cynnal o dan y paragraff hwnnw.

**100.-** (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth iddo ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau.
(2) Ni chaiff isadran (1) ei dehongli fel petai'n rhoi hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru amau haeddiannau amcanion polisi'r Cynulliad.
(3) Wrth ddyfarnu sut mae arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Archwilio ynglyn â’r ymchwiliadau y dylai eu cynnal o dan yr adran hon.
(4) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod gerbron y Cynulliad adroddiad am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd ganddo o dan yr adran hon.

**102.-** (1) Caiff y Pwyllgor Archwilio ystyried a gosod gerbron y Cynulliad adroddiad am unrhyw gyfrifon, datganiad cyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan -
(a) Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu
(b) yr archwilydd a benodir o dan adran 94.
(2) Os bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Ty’r Cyffredin yn gofyn iddo wneud hynny, caiff y Pwyllgor Archwilio -
(a) ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gymryd tystiolaeth gan brif swyddog cyfrifo'r Cynulliad neu unrhyw swyddog cyfrifo ychwanegol a ddynodir o dan adran 98, a
(b) cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a throsglwyddo i'r Pwyllgor hwnnw unrhyw dystiolaeth a gymerir felly.

**103.-** (1) Caiff dogfen y mae'r isadran hon yn gymwys iddi ei chyhoeddi gan y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gosod ger ei fron.
(2) Dyma'r dogfennau y mae isadran (1) yn gymwys iddynt -
(a) unrhyw gyfrifon, datganiad cyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru,
(b) unrhyw gyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan yr archwilydd a benodwyd o dan adran 94, ac
(c) unrhyw amcangyfrif neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan adran 93(6) neu 102(1) gan y Pwyllgor Archwilio.

**ATODIAD B**

## RHEOL SEFYDLOG 12 - Y PWYLLGOR ARCHWILIO

### Aelodaeth

12.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf saith ac nid mwy nag 11 o Aelodau ac fe'i cadeirir gan aelod o grwp gwleidyddol nad yw wedi'i gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad. Ni all aelod o Gabinet y Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

### Cyfrifoldebau

12.2 Bydd y Pwyllgor:

(i) yn arfer y swyddogaethau a nodir yn adran 93(6)-(7) o'r Ddeddf ynglyn ag amcangyfrifon a gyflwynir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(ii) yn cyflwyno sylwadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru o bryd i'w gilydd ar y ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei bwerau i wneud ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;

(iii) yn arfer unrhyw swyddogaethau ynglyn â chymeradwyo cyrff cyfrifwyr a ddirprwyir iddo gan y Cynulliad o dan adran 94(4); ac

(iv) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar waith y Pwyllgor.

12.3 Caiff y Pwyllgor:

(i) adrodd i'r Cynulliad yn unol ag adran 102(1) o'r Ddeddf ar ddogfennau a osodir ger ei fron gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd y swyddog hwnnw; a

(ii) cymryd tystiolaeth ac adrodd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Ty'r Cyffredin os gofynnir iddo wneud hynny gan y Pwyllgor hwnnw.

12.4 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan baragraff 12.3(i) ni fydd y Pwyllgor yn amau rhagoriaethau amcanion polisi'r Cynulliad nac amcanion polisi unrhyw gorff neu berson arall sy'n destun adroddiad gan y Pwyllgor.

12.5 Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan baragraff 12.3(i), bydd yn anfon copi at y Prif Ysgrifennydd. Cyn pen mis ar ôl i'r Prif Ysgrifennydd gael yr adroddiad, bydd Ysgrifennydd Cynulliad, ar ran Cabinet y Cynulliad, yn gosod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor; ac os ymateb dros dro yw hwnnw, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gosod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad cyn pen dau fis arall.

**Cyfarfodydd**

12.6 Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar ei raglen waith drwy ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fynychu cyfarfodydd preifat y Pwyllgor, gyda chaniatâd y cadeirydd neu ar ei gais.

12.7 Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor gymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater os oedd ef neu hi yn aelod o Gabinet y Cynulliad ar yr adeg berthnasol.

12.8 Caiff y Llywydd gyhoeddi canllawiau i'r aelodau ar osgoi gwrthdrawiadau buddiannau wrth iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio.

12.9 Os yw'r cadeirydd wedi'i anghymhwyso rhag cymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater o dan y rheolau sefydlog neu'n tynnu'n ôl o ystyriaeth o'r fath yn wirfoddol, bydd y Pwyllgor yn ethol aelod arall i'w gadeirio pryd bynnag y bydd y mater hwnnw'n cael ei ystyried. Ni chaiff y Pwyllgor ethol aelod o'r grwp gwleidyddol mwyaf a gynrychiolir yng Nghabinet y Cynulliad yn gadeirydd dros dro.

12.10 Gall aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd gael ei gynrychioli gan aelod o'r un grwp gwleidyddol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor neu mewn rhan o un o'i gyfarfodydd. Bydd y grwp gwleidyddol priodol yn enwebu aelod arall o'r grwp, y mae ei enw wedi'i roi ymlaen llaw i'r Cadeirydd, i fod yn aelod dros dro o'r Pwyllgor. Rhaid i'r aelod a enwebir beidio â bod yn aelod o Gabinet y Cynulliad. Ni chaiff unrhyw aelod gynrychioli mwy nag un aelod o'r Pwyllgor mewn cyfarfod.

**Gwysio Tystion a Dangos Dogfennau**

12.11 Wrth baratoi unrhyw adroddiadau, bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth yn ôl yr angen gan Brif Swyddog Cyfrif y Cynulliad neu gan Swyddogion Cyfrif eraill a chanddynt gyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r materion o dan sylw.

12.12 Yn unol ag adran 74 o'r Ddeddf, gall y Pwyllgor benderfynu gwysio tystion neu fynnu bod dogfennau yn cael eu dangos. Bydd unrhyw gynnig o'r fath yn enwi'r personau sydd i'w gwysio neu'r dogfennau sydd i'w dangos.

12.13 Pan fydd y Pwyllgor wedi penderfynu gwysio tystion neu orchymyn bod dogfennau yn cael eu dangos, bydd y cadeirydd yn hysbysu'r Llywydd ynglyn â thelerau'r penderfyniad, ac yn gofyn i'r Llywydd roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw bersonau perthnasol. Bydd y cyfryw hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 74(6) o'r Ddeddf, ac yn cydymffurfio â gofynion adran 74(7).

12.14 Gall fod yn ofynnol i berson sydd wedi'i wysio i fynychu'r Pwyllgor Archwilio dyngu llw (neu roi cadarnhad). Os bydd unrhyw un o'r swyddogion a bennir yn adran 75(1)(a) o'r Ddeddf yn absennol, neu os yw'r cadeirydd wedi'i ddatgymhwyso rhag cymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried y mater o dan baragraff 12.7, gall cadeirydd dros dro y Pwyllgor weinyddu'r llw (neu'r cadarnhad).

12.15 Lle bydd llw i’w dyngu neu gadarnhad i’w wneud o dan baragraff 12.11, bydd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 9.17.

**ATODIAD C**

## AELODAETH O'R PWYLLGOR ARCHWILIO

Yr Aelodau Presennol:

| | | |
|---|---|---|
| Dafydd Wigley (Cadeirydd)<br>Cadeirydd 19.03.02 - | Plaid Cymru | Caernarfon |
| Eleanor Burnham<br>Yn lle Kirsty Williams 31.01.02 | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Alun Cairns | Ceidwadwyr | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies<br>Cadeirydd 23.06.99 – 19.03.02 | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory<br>Yn lle Lynne Neagle 27.11.01 | Llafur | Ogwr |
| Jocelyn Davies | Plaid Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Alison Halford | Llafur | Delyn |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd<br>Yy lle Peter Law 27.11.01 | Llafur | Dwyrain Abertawe |

**ATODIAD D**

## ADRODDIADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO, HYDREF 2001 - MEDI 2002

| Rhif yr adroddiad | Teitl | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| 06-01 | Adroddiad ar Fwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau | 29 Tachwedd 2001 |
| 01-02 | Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000 | 16 Ionawr 2002 |
| 02-02 | Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol i Gymru | 24 Ionawr 2002 |
| 03-02 | Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd | 16 Ebrill 2002 |
| 04-02 | Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru | 25 Ebrill 2002 |
| 05-02 | Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol | 19 Mehefin 2002 |
| 06-02 | Cyllid GIG Cymru | 25 Gorffennaf 2002 |
| 07-02 | Rheoli ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru | 1 Awst 2002 |

## ADRODDIADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO, HYDREF 2002 - MEDI 2003

| Rhif yr adroddiad | Teitl | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|---|
| 08-02 | Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru | 5 Rhagfyr 2002 |
| 09-02 | Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru | 12 Rhagfyr 2002 |
| 01-03 | Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001 | 3 Chwefror 2003 |

**ATODIAD E**

## ARGYMHELLION ADRODDIADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO A GYHOEDDWYD HYDREF 2000 - MEDI 2001

## ARCHWILIAD ARIANNOL

### Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000

*Rhagolygon ariannol a chanlyniadau1999-2000*

(i) Argymhellwn y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG a GIG Cymru gydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau y caiff y mesurau hyn eu profi'n llawn a'u rhoi ar waith erbyn 31 Mawrth 2002, fel y gellir gwneud rhagolygon ariannol cywir ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03 a'r blynyddoedd dilynol.

*(ii)* Anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i chwilio am gyfleoedd o fewn y broses ymgynghori i ddarganfod dulliau mwy effeithiol o gynorthwyo meddygon teulu fel cyfangorff i ddarparu gwell ansawdd ac ystod o wasanaethau yn eu practisiau ac i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael.

(iii) Rydym yn siomedig dros ben felly mai dim ond gwelliant ymylol yn y perfformiad talu prydlon a gafwyd yn 1999-2000, ac rydym yn pwyso'n daer ar Gyfarwyddiaeth y GIG i gymryd camau i sicrhau lefel perfformiad uwch o lawer yng nghyflymder talu anfonebion ym mlynyddoedd y dyfodol. Yn hyn o beth, rydym yn croesawu cynnig Mrs Lloyd y dylai perfformiad talu cyflenwyr, yn enwedig gan ymddiriedolaethau GIG, ddod yn faen prawf perfformiad ffurfiol. Bwriadwn fonitro'r cynnydd ar hyn yn fanwl.

(iv) Anogwn y Gyfarwyddiaeth GIG i gytuno ar gynlluniau adfer ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru ac ardal awdurdod iechyd Gwent ar frys. Byddwn yn parhau i fonitro hynt y broses adfer ariannol yn GIG Cymru.

(v) Rydym o'r farn fod darogan dibynadwy o ganlyniadau ariannol yr ad-drefnu yn hanfodol ar gyfer proses penderfynu oleuedig a gallu Cyfarwyddiaeth y GIG i fonitro gweithredu. Rydym yn disgwyl i Gyfarwyddiaeth y GIG ganfod maint tebygol y costau a dilyn hynt y costau hynny o'u cymharu â'r rhagolygon.

(vi) Rydym yn cydnabod yr ymdrechion dygn gan Health Solutions Wales wrth ddelio â'r ôl-groniad a achoswyd gan y cynnydd yn y cyffuriau Categori D a ddosbarthwyd gan Fferyllwyr yn ystod 1999-2000, ac yn nodi'r sicrwydd a gawsom gan Mrs Williams y bydd Health Solutions Wales yn cyrraedd y targed eto ar gyfer prosesu presgripsiynau erbyn Tachwedd 2001.

(vii) Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithio'n agos gyda Health Solutions Wales a'r awdurdodau iechyd i sicrhau y bydd yr holl ordaliadau'n cael eu hadennill yn llwyr ar y cyfle cyntaf, fel y gellir sianelu'r cyllid hwn yn ôl i ofal am gleifion.

(viii) Rydym yn disgwyl i Health Solutions Wales wella'r monitro ar incwm oddi wrth bresgripsiynau a gostwng yn sylweddol yr incwm a gaiff ei ildio o ganlyniad i ganiatáu eithriadau amhriodol, gan weithio mewn partneriaeth â'r pum awdurdod iechyd a'r Cynulliad.

(ix) Fodd bynnag, rydym yn cytuno â dadl Mrs Lloyd bod canfod ac atal twyll yn gyfrifoldeb i holl staff y GIG, ac nid y rhai sy'n gweithio mewn adrannau cyfrifon ysbytai yn unig. Rydym felly'n annog Cyfarwyddiaeth y GIG i

weithio'n agos gyda Thîm Gwasanaeth Gweithredol Gwrth-Dwyll (Cymru) i sicrhau bod yr holl staff yn GIG Cymru yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â thwyll.

**Cyllid GIG Cymru**

*Ar berfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru:*

(i) Derbyniwn iddi fod yn angenrheidiol i ddarparu cyllid cynorthwyol strategol er mwyn galluogi ymddiriedolaethau GIG arbennig i gyflawni eu cynlluniau adfer ariannol. Derbyniwn ymhellach y byddai'n afresymol i roi baich dyledion eu rhagflaenwyr ar y sefydliadau GIG newydd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gellid ystyried camau o'r fath fel dull o wobrwyo perfformiad ariannol gwael a gallai fod yn wrthanogol i sefydliadau gochelgar.

(ii) Mae ailstrwythuro GIG Cymru a darparu cyllid ychwanegol i'r GIG sy'n deillio o'r gyllideb yn gyfle rhagorol am ddechreuad newydd. Rydym yn argymell yn gryf felly y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn sylweddoli bod angen sefydlogrwydd ariannol ac y dylid gweithredu hyn o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rydym yn awgrymu hefyd y byddai'n briodol i Gyfarwyddiaeth y GIG amlinellu'n glir o'r cychwyn dan ba amgylchiadau eithriadol y byddai benthyciadau y byddai'n rhaid eu had-dalu ar gael.

(iii) Nodwn y mesurau a gymerwyd hyd yma i wella cywirdeb y rhagolwg ariannol. Edrychwn ymlaen am gadarnhad ffurfiol o'r canlyniadau ar gyfer 2001-02 a hyd yn oed gwell canlyniad ar gyfer 2002-03. Argymhellwn fod Cyfarwyddiaeth y GIG a chyrff GIG yn parhau i weithredu mesurau priodol i wella'u rhagolwg ariannol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio cyn gynted â phosib i sicrhau lefel uchaf o ofal claf.

(iv) Rydym yn parhau'n bryderus iawn am gynnydd parhaus hawliadau esgeulustod clinigol. Mae costau o'r fath yn creu bwlch mawr yn narpariaeth ariannol ychwanegol y GIG a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganghellor y Trysorlys. Hyderwn y bydd yr arolwg allanol o drefniadau rheoli'r Pwll Risg yng Nghymru yn ystyried pob agwedd ar reoli hawliadau o'r digwyddiad i'r datrys a'r setliad.

(v) Dylai unrhyw system newydd ar gyfer rheoli esgeulustod clinigol ddysgu oddi wrth arfer gorau mewn mannau eraill a chynnwys cymhellion mewnol er mwyn darparu'r safonau gorau posibl o ofal claf, lleihau achosion a gwariant ar esgeulustod clinigol a darparu gwerth am arian i'r trethdalwyr.

(vi) Er nad ydym yn beiriniadu Ymddiriedolaethau GIG Conwy a Sir Ddinbych, gofynnwn a yw gweithredu'r Pwll gan un corff GIG ar ran GIG Cymru gyfan yn dal yn briodol o ystyried cymhlethdod cynyddol rheoli a datrys hawliadau a'r swm o arian sy'n gysylltiedig bellach â hyn. Mae ailstrwythuro parhaus GIG Cymru yn cynnig cyfle gwych i edrych o'r newydd ar y trefniadau hyn a hyderwn yr eir i'r afael â'r mater fel rhan o'r adolygiad.

(vii) Rydym yn croesawu'r gwelliant ym mherfformiad talu prydlon ond yn pwysleisio bod angen ymdrechion pellach i sicrhau bod pob bil dilys yn cael ei dalu cyn pen y targed terfynol o 30-diwrnod. I'r perwyl hwn rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i gyflwyno targed statudol ar gyfer 2003-04. Pwysleisiwn y dylai'r targed allweddol fod yn berthnasol i rif, yn hytrach na gwerth, y biliau a dalwyd er mwyn sicrhau nad anghofir am gyflenwyr bach.

(viii) Rydym yn argymell hefyd bod Cyfarwyddiaeth y GIG yn sicrhau bod y targed yn cael ei gymhwyso a'i fesur mewn modd cyson ym mhob corff GIG. Rydym yn ystyried y dylai'r targed ganolbwyntio ar daliadau i gyflenwyr allanol a pheidio â chynnwys cyflogau na thaliadau rhyng-GIG.

(ix) Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i gydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a gweithredu pob mesur rhesymol i wella'u sefyllfa ariannol. Rydym yn hynod o bryderus am or-ddibynnu ar staff asiantaeth a chost defnyddio staff asiantaeth, yn ogystal â'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar safon gofal cleifion.

(x) Rydym yn bryderus am yr amser a gymer i gynhyrchu cynllun adfer derbyniol ar gyfer ardal economi iechyd Gwent ac yn disgwyl i gynllun derbyniol gael ei gwblhau yn ddiymdroi. Rydym yn cytuno â barn Mrs Lloyd fod swyddogaeth rheolwyr y GIG wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn nodi bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod rheolwyr GIG yn gallu elwa ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn meddu ar y dulliau angenrheidiol i reoli sefydliadau cymhleth mewn ffordd effeithiol. Rydym hefyd yn cytuno mai cyfrifoldeb Cyfarwyddiaeth y GIG yw gwneud yn glir yr hyn a ddisgwylir gan reolwyr GIG, er mwyn eu cynorthwyo i reoli'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo bellach.

*Ar brisio presgripsiynau*

(xi) Rydym yn siomedig â'r oedi pellach i glirio ôl-groniad prisio presgripsiynau a'r oedi cyn adennill gordaliadau i fferyllwyr. Mae'r oedi annerbyniol hwn wedi cael effaith andwyol ar yr ymdrechion i wella rhagolygon ariannol, ac mae'r prinder gwybodaeth presennol ar arferion meddygon teulu o roi presgripsiwn wedi'i gwneud yn anoddach rheoli cost cyffuriau. Rydym yn disgwyl i Gyfarwyddiaeth y GIG ac Atebion Iechyd Cymru sicrhau nad oes oedi pellach ac y bydd yr holl fater truenus wedi dod i ben ymhell cyn diddymu'r awdurdodau iechyd yn 2002-03.

(xii) Nodwn fod cyfran o wybodaeth sy'n ymwneud â rhoi presgripsiwn ac sy'n berthnasol i 2000 wedi'i rhyddhau i'r cyhoedd yn ddiweddar. Hyderwn y bydd y wybodaeth yn cael ei diweddaru ac yr ychwanegir ati fel y gall arferion rhoi presgripsiwn a'r costau cysylltiedig gael eu rheoli mewn dull mwy strwythurol gan y byrddau iechyd lleol newydd.

(xiii) Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod yr awdurdodau iechyd yn gwneud amcangyfrif rhesymol a chadarn o'r prinder mewn refeniw o'r taliadau presgripsiwn, ac i ddefnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer cymryd camau gweithredu priodol i herio twyll a chamgymeriad. Nodwn y camau gweithredu a gyflawnwyd hyd yma ac argymhellwn fod yr awdurdodau iechyd yn parhau i

weithio'n agos gyda'u harchwilwyr penodedig ac Atebion Iechyd Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn.

*Ar dwyll yn y GIG*

(xiv) Rydym yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill gyflawnir i asesu graddau'r twyll yn GIG Cymru ac yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau. Rydym hefyd yn croesawu'r mesurau sy'n cael eu gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o dwyll a'i effaith ar bwrs y cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau yn y man y darperir gwasanaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gall fod angen newid systemau ar gyfer hyn er mwyn cynnwys osgoi twyll mewn gweithdrefnau gweithredu.

*Ar ailstrwythuro*

(xv) Nodwn y bydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn amcangyfrif costau ailstrwythuro a byddem yn gwerthfawrogi diweddariad rheolaidd ar y gwir gostau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol bod yn rhaid gallu amddiffyn diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar yn gyhoeddus erbyn hyn, a nodwn yn y cyd-destun hwn bod Cyfarwyddiaeth y GIG bellach wedi rhoi cyfarwyddyd ar doriadau staff. Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithredu ymhellach ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol gan ddarparu cyngor, fel y bo'n briodol, ar ddrafftio contractau cyflogaeth newydd.

*Casgliad cyffredinol*

Yn ei Gyllideb ar gyfer 2002, amlinellodd y Canghellor ei gynnig i godi refeniw ychwanegol er lles y GIG. Mae hawl gan bobl Cymru i ddisgwyl fod yr adnoddau sydd ar gael i GIG Cymru yn cael eu defnyddio'n ddoeth, gan ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian a'r gofal i gleifion o ansawdd gorau posibl. Mae ailstrwythuro GIG Cymru yn gyfle da i sicrhau newidiadau y mae eu hangen yn ddybryd.

**GWERTH AM ARIAN**

**Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau**

(i) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad weithio gyda'r proffesiwn fferyllwyr i ddiffinio'n fwy clir anghenion hyfforddi fferyllwyr a'u staff yn y maes hwn, i ddatblygu strategaeth i gwrdd â'r angen hwnnw yn fwy effeithiol ac i roi mesurau ar waith a fyddai'n caniatáu gwerthuso effaith y dull gweithredu a ddefnyddir i gwrdd â'r angen hwnnw.

(ii) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad ystyried yr awgrymiadau i wella'r gwirio ar gymhwyster (gan gynnwys y posibilrwydd o rôl fwy i feddygon teulu yn y broses hon) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Phwyllgor Fferyllol Canolog Cymru gyda chynrychiolwyr o'r proffesiwn er mwyn canfod y rhai sydd yn cynnig y manteision gweithredol posibl gorau ac y gellid asesu eu gweithrediad ymarferol.

(iii) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad ailedrych ar y trefniadau cytundebol gyda'r proffesiwn fferyllwyr yng Nghymru i weld a oes modd pennu rhwymedigaethau

yn gliriach a datblygu gwell anogaethau i gymell fferyllwyr i wneud gwiriadau Wrth Ddosbarthu yn fwy effeithiol.

(iv) Argymhellwn hefyd y dylai'r Cynulliad, wrth edrych ar ddulliau o wella anogaethau i fferyllwyr, ystyried dichonoldeb rhoi sancsiynau neu gosbau ar waith y gellid eu galw i rym yn yr achosion hynny lle y canfyddir yn gyson nad yw fferyllwyr yn gwneud gwiriadau Wrth Ddosbarthu sydd yn cyrraedd y safon a bennir yn eu hamodau gwasanaethau.

(v) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad roi sylw fel mater o frys i'r gwendidau a ganfu'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag eithrio sydd yn gysylltiedig ag oedran ac y dylai symud at sefyllfa lle y caiff oed neu ddyddiad geni'r claf ei gofnodi'n awtomatig ar ffurflen presgripsiwn.

(vi) Disgwyliwn i swyddogion y Cynulliad barhau i bwyso am welliant ym mherfformiad Health Solutions Wales ac arhoswn â diddordeb i gael gwybod am y cynnydd a wnaethpwyd.

(vii) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad lunio cynllun gweithredu i ymateb i'r her o ddatblygu gwell trefniadau gwirio a monitro. Credwn y bydd yn bwysig i waith y Cynulliad yn y maes hwn gael ei arwain gan darged meintiol ar gyfer lleihau, flwyddyn ar ôl blwyddyn, y nifer o eithriadau rhag taliadau presgripsiynau a roddir i unigolion nad oes ganddynt hawl i dderbyn y budd hwn oherwydd un ai camgymeriad neu dwyll.

(viii) Disgwyliwn i'r Cynulliad adeiladu ar sail y dull gweithredu a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yng nghwrs ei harchwiliad a rhoi trefniadau ar waith gyda chyrff eraill fel yr Asiantaeth Budd-daliadau i hwyluso rheolaethau eraill sydd yn ategu'r gwiriadau Wrth Ddosbarthu ac yn cadarnhau bod y gwiriadau hynny wedi eu gwneud yn gywir.

(ix) Argymhellwn y dylid cymryd camau cadarn yn erbyn unigolion sydd yn hawlio eithriad rhag taliadau presgripsiynau yn amhriodol neu'n dwyllodrus ac y dylid rhoi cymaint o gyhoeddusrwydd ag y bo modd i unrhyw gosbau arnynt gyda'r amcan o rwystro eraill.

(x) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad gynhyrchu arweiniad clir ar y priod rolau a chyfrifoldebau dros fonitro a gwirio systemau sydd â'r bwriad o sicrhau mai dim ond unigolion sydd â hawl priodol i dderbyn presgripsiynau am ddim sydd yn derbyn y budd hwnnw a hefyd ar gyfrifoldebau dros ddiogelu'r system rhag twyll a dros ymladd twyll pan ddeuir o hyd iddo.

**Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol i Gymru**

(i) Dylai NHS Cymru osod a monitro targedau ar gyfer y defnydd o staff tramor a staff asiantaeth; dylai Ymddiriedolaethau NHS wirio a chadw cofnodion o'r hyfforddiant a gânt, a dylent geisio lleihau eu dibyniaeth ar staff o'r fath o fewn amserlen a gytunir.

(ii) Dylai Cyfarwyddiaeth yr NHS gydweithio â'r holl gyflogwyr NHS i sicrhau bod personél medrus ganddynt ar gyfer cynllunio gweithlu, eu bod yn defnyddio systemau data a chynllunio cyffredin a'u bod yn casglu data cymaradwy cywir am y cyfraddau swyddi gwag.

(iii) Dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch werthuso'r buddsoddiad cyfalaf y mae ei angen er mwyn darparu ar gyfer yr ehangu cyfredol ac arfaethedig yn niferoedd y myfyrwyr, sy'n deillio o'r NHS, a chytuno'n benodol ar y modd y cyllidir hyn.

(iv) Dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch barhau i chwilio am ddulliau arloesol o ganfod a defnyddio lleoliadau ymarfer, i oresgyn problemau mewn perthynas â staff addysgu. Ar yr adeg briodol, dylid adolygu'r penderfyniad i gyllido lleoliadau, er mwyn asesu a yw'r dull hwnnw o ddefnyddio cyllid cyhoeddus yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa gasgliadau a gyrhaeddir.

(v) mae angen i'r NHS gynnwys sefydliadau addysg uwch yn llawn yn y gwaith o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu iechyd proffesiynol newydd, gan weithredu ar y cyd a rhannu'r cyfrifoldeb am recriwtio, dethol a chadw.

(vi) Dylai'r broses o negodi contractau gynnwys trylwyredd llwyr ynglyn â chostau a phrisiau'r cyrsiau a gyllidir gan yr NHS. Mae angen cadw cydbwysedd rhwng lleihau'r gost i'r NHS, diogelu'r ansawdd a pheidio ag ychwanegu at anawsterau ariannol y sefydliadau. Ni ddylai'r naill ochr na'r llall orfod wynebu'r annisgwyl, ac y mae angen system fonitro effeithlon er mwyn sicrhau bod y ddau barti'n cael gwerth da am arian allan o'u perthynas.

(vii) Dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch gytuno ar fframwaith polisi eglur ar gyfer contractau. Dylai'r rhain gynnwys targedau mewnbwn ac allbwn cenedlaethol-gyson sy'n hwyluso meincnodi a rheoli perfformiad.

(viii) Dylai gwaith yr Adolygiad Cynllunio Gweithlu, o ddatblygu cydffederasiynau ac ad-drefnu'r Grwp Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol a Rheolwrol cael ei gwblhau'n ddi-oed, er mwyn cyflenwi'r angen am drosolwg strategol. Dylid sefydlu'r trefniadau newydd cyn gynted ag y bo modd.

**Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd**

(i) Roedd Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ynghyd â'r dystiolaeth a glywsom yn nodi'n glir rai gwersi pwysig i'r Cynulliad ac rydym yn argymell bod swyddogion yn rhoi ystyriaeth lawn i'r rhain yn y dyfodol wrth gynllunio i gau, ad-drefnu neu ailstrwythuro cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn pwysleisio'r pwyntiau hyn.

- Rydym yn ategu'r brif wers yn nhystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol. Yn y dyfodol, wrth gau ac ad-drefnu cyrff cyhoeddus yng Nghymru, dylid sicrhau bod gan y weinyddiaeth lywodraethol sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau canlyniad llwyddiannus rôl lawnach yn y broses o'r cychwyn cyntaf.
- Mae'r broses o gau neu o ad-drefnu cyrff cyhoeddus yn arwain, yn anochel, at negodi rhwng y grwpiau perthnasol ac mae'r trafodaethau hyn yn tueddu i barhau tan y funud olaf. O'r herwydd, mae'n holl bwysig bod penderfyniadau allweddol yn cael eu cymryd cyn gynted â phosibl yn y broses ac na adewir i unrhyw oedi wrth gymryd y penderfyniadau allweddol hyn wanhau safiad y Cynulliad wrth negodi. Yn y cyd-destun hwn, mae swyddogion y Cynulliad yn ymwybodol, er enghraifft, bod gwaith a wnaed eisoes gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn dangos, wrth ddirwyn Corfforaethau Datblygu eraill i ben, bod angen cymryd penderfyniadau allweddol ar gyrff olynol o leiaf ddwy flynedd cyn y dyddiad dirwyn i ben.
- Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol mai rheswm arall pam y dylid cymryd penderfyniadau allweddol yn gynnar yw i osgoi effaith andwyol ansicrwydd ar staff. Mae cau ac ad-drefnu sefydliad yn rhoi straen ar staff. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid rheoli'r broses mewn modd sensitif ac mewn ffordd agored gan roi cymaint o wybodaeth â phosibl i'r

unigolion dan sylw. Dylid ceisio rhoi sicrwydd pendant i staff bod eu dyfodol a'u swyddi yn ddiogel ac, eto, dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl yn y broses.

- Mae perygl y bydd swyddogion, wrth fwrw ymlaen â'r broses negodi, yn diystyru amrywiaeth o faterion gweinyddol cysylltiedig eraill. Gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol hyn yn digwydd wrth ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben mewn perthynas â thalu'r Dreth Stamp, adfer Treth ar Werth a mynd i'r afael â dyledion amheus. Er, o'u cymryd ar eu pennau eu hunain, bod pob un o'r materion hyn yn gymharol fach, o'u cyfuno gallant gael effaith andwyol ar ymdrechion i ddirwyn gweithgareddau sefydliad i ben mewn ffordd drefnus a throsglwyddo cyfrifoldebau i sefydliadau eraill.

(ii) Mae ymateb cychwynnol y cyrff olynol i'r trefniadau newydd yn galonogol. Fodd bynnag, mae'n tanlinellu'r ffaith bod angen i'r Cynulliad baratoi trefniadau cadarn er mwyn monitro cyllid a pherfformiad y cyrff olynol. Rydym hefyd yn credu ei fod yn dangos bod angen gwerthuso'n rheolaidd y cynnydd y mae'r cyrff olynol yn ei wneud o'i gymharu â'r targedau yr oedd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi'u datblygu ar gyfer ei gweithgareddau adfywio.

(iii) Rydym yn cefnogi cynnig yr Ysgrifennydd Parhaol i gynnal gwerthusiad trylwyr i fesur llwyddiant y gwaith o adfywio Bae Caerdydd ac rydym yn argymell bod y Cynulliad yn darparu'r arian ar gyfer hynny. Yn ein barn ni, mae'r ymarfer hwn yn elfen hanfodol o drefniadau'r Cynulliad i sicrhau gwerth am arian am yr adnoddau sylweddol y mae wedi'u buddsoddi ac y bydd yn parhau i'w buddsoddi yn y gwaith o adfywio Bae Caerdydd.

(iv) Rydym hefyd yn argymell bod y Cynulliad yn sicrhau bod unrhyw werthusiad o'r gwaith o adfywio Bae Caerdydd yn cael ei gynnal mewn ffordd agored. Yn ogystal, rydym yn argymell y dylai canlyniadau unrhyw werthusiad fod ar gael i Aelodau'r Cynulliad ac y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gael gweld yr holl wybodaeth a'r deunydd a fu'n sail i'r gwerthusiad.

(v) Manteisiwn ar y cyfle hwn i bwysleisio unwaith yn rhagor pa mor bwysig yw hi fod yr Archwilydd Cyffredinol yn cael gweld holl lyfrau a chofnodion Awdurdod Harbwr Bae Caerdydd yn unol â'r Cytundeb adran 165 perthnasol.

(vi) Ar hyn o bryd, mae gennym fersiwn y Cynulliad o'r Cod Gweinidogol i'n harwain wrth ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl. Ond gwlad fach yw Cymru, ac mae gennym Aelodau hefyd sy'n cynrychioli rhanbarthau yn hytrach nag etholaethau. Mae hyn ynddo'i hun, i ddefnyddio geiriau'r Ysgrifennydd Parhaol, yn codi 'tricky issue' mewn perthynas â nodi achosion posibl o wrthdaro buddiannau neu ddeuoliaeth buddiannau. Mae hwn yn faes lle y mae'n rhaid i bob Aelod fod ar ei wyliadwriaeth a bod yn agored, a hynny'n gyson. Felly, byddem yn falch pe bai ymateb y Cabinet i'n hadroddiad yn cynnwys rhyw asesiad o'r trefniadau presennol ar gyfer delio ag achosion o wrthdaro buddiannau posibl ar ran Gweinidogion a ph'un a oes angen i'r Cynulliad, fel corff, ailystyried a yw'r trefniadau hynny yn ddigonol.

(vii) Ynghylch y perygl o groesnoddi swyddogaethau, nodwn fod y Cytundebau adran 165 perthnasol yn ei gwneud hi'n glir at ba ddibenion y gellir defnyddio'r arian a roddir gan y Cynulliad. Wrth i'r Cynulliad ddatblygu

ffordd ymarferol o roi'i drefniadau ariannu ar waith, rydym hefyd yn argymell y dylai, pan fo'n briodol, glustnodi adnoddau i sicrhau nad yw'r arian a ddarperir ganddo ond yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer.

**Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru**

(i) Bod y Consortiwm estynedig yn adeiladu ar ei lwyddiant hyd yn hyn drwy gynyddu nifer ei gontractau a thrwy droi ei sylw at arfer da wrth gaffael, megis pennu targedau ac e-gaffael.
(ii) Bod pob sefydliad yn ystyried y byddai'n gost-effeithiol penodi swyddog caffael arbenigol, a lle bydd sefydliadau o'r farn nad yw penodi swyddog mewnol yn gost-effeithiol, dylent geisio gwella eu harbenigedd caffael drwy ddulliau eraill.
(iii) Bod y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau i sicrhau nid yn unig bod y wybodaeth ar gael er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol ynghylch caffael ond hefyd i hwyluso'r gwaith o fonitro'r arbedion sydd wedi'u sicrhau dros gyfnod o amser.
(iv) Bod pob sefydliad yn nodi rhestr o weithgareddau i'w hadolygu fel cam cyntaf tuag at lunio rhaglen adolygu. Dylent gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r rhaglen hon i'r Cyngor.
(v) Bod pob sefydliad yn sefydlu rhaglen o werthuso cyflenwyr gyda'r bwriad o sefydlu rhestr gadarn o gyflenwyr ar gyfer pryniadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau lefelau uwch o wasanaeth a chostau is.
(vi) Bod pob sefydliad yn parhau i fod yn ymwybodol o'r hyn y gall y farchnad leol ei gynnig, tra'n rhoi'r brif flaenoriaeth i werth am arian - sydd fel arfer yn golygu'r cais rhataf o ansawdd derbyniol - wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.
(vii) Bod pob sefydliad yn mynd ati'n systematig i reoli ynni. Dylent, fel maer o flaenoriaeth ddatblygu strategaethau rheoli ynni cadarn gan gynnwys prisiau defnyddio a chyflenwi ynni a dylent sicrhau eu bod ar gael i'r Cyngor eu harchwilio.
(viii) Bod y Cynulliad yn ystyried a yw'r model presennol ar gyfer y sector addysg bellach fel cyrff ymreolus yn dal yn briodol [gan ailadrodd argymhelliad a wnaed mewn adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor].
(ix) O fewn deuddeng mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn, bod y Cyngor yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hynt y sector wrth geisio cyrraedd y targed o sicrhau arbedion blynyddol cronnol o £2.5 miliwn o leiaf.

**Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

(i) Fel rhan o'r adolygiad annibynnol y mae wedi'i gomisiynu ar ei weithdrefnau, yn ystyried pa mor ddigonol yw ei asesiad o risg mewn perthynas â phrosiectau loteri. Yn arbennig, dylai archwiliad trylwyr o'r prif risgiau sy'n allweddol i hyfywedd ariannol prosiectau, gan gynnwys nifer y bobl sy'n debygol o ymweld ag atyniadau celfyddydol newydd, fod yn rhan annatod o'r gwaith o asesu pob cais am arian loteri.
(ii) Sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol ar gael rhag ofn y daw'r risgiau i hyfywedd ariannol y prosiect yn realiti.

(iii) Yn cadw nodiadau manwl ar ei ystyriaeth o faterion sylfaenol fel y berthynas rhwng tâl mynediad a nifer yr ymwelwyr mewn perthynas â phrosiectau y mae'n bwriadu rhoi arian loteri ar eu cyfer.
(iv) Asesu ei bolisïau cadw cofnodion cyffredinol er mwyn sicrhau bod cofnod digonol yn cael ei gadw o benderfyniadau a thrafodaethau allweddol y Cyngor ynghylch prosiectau loteri.
(v) Monitro'n fwy gofalus unrhyw newidiadau i natur yr atyniadau sydd i'w cynnig gan brosiectau y mae'n rhoi arian loteri ar eu cyfer, er mwyn sicrhau bod canlyniadau refeniw posibl newidiadau a gyflwynir ar ôl i grantiau loteri gael eu cymeradwyo yn cael eu harchwilio'n briodol.
(vi) Nid yn unig yn tynnu sylw'r ymgeisydd at y gwendidau a nodir gan ei aseswr annibynnol ond ei fod, fel rhan o'i waith yn monitro'r prosiect, yn cymryd camau cadarnhaol a chynnar i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn.
(vii) Adolygu ei drefniadau archwilio er mwyn sicrhau bod yr angen am eitemau fel offer TG yn cael ei gydnabod yn llawn a'i gostio'n iawn pa fo cais yn cael ei gyflwyno am arian loteri.
(viii) Sicrhau, ar gyfer unrhyw brosiect o'r maint hwn, bod y cynllun busnes yn cynnwys proses asesu risg lawn ynghyd â chynlluniau wrth gefn realistig sydd wedi'u datblygu'n llawn.
(ix) Rhoi ar ddeall i ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael arian loteri, ar ddechrau pob prosiect, na ddylent newid y cynlluniau gwreiddiol heb hysbyu'r Cyngor yn llawn ymlaen llaw.
(x) Datgan yn glir, ar ddechrau pob prosiect, pa wybodaeth ddylai'r ymgeisydd am arian loteri ei darparu a pha mor aml y dylid darparu'r wybodaeth honno. Dylai'r gofynion hyn gael eu nodi mewn cytundeb cyfreithiol rwymol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ymgeisydd. Os nad yw ymgeisydd yn glynu wrth y gofyniad hwn, yna dylid dal yr arian yn ôl.
(xi) Adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ddiogelu unrhyw fuddiant sydd ganddo mewn unrhyw asedau sy'n weddill pan fo prosiect sydd wedi derbyn arian loteri yn methu.

**Rheoli ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

(i) Bod Adran GIG Cymru'n monitro'r gwaith o gymhwyso fframwaith strategol ystadau gwladol ar lefel leol a'i addasu fel bo angen i adlewyrchu newidiadau ym mhatrwm datblygiadau gwasanaeth.
(ii) Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y targedau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyflwr ystadau ar gyfer y GIG yng Nghymru yn ddigon uchelgeisiol ond yn rhai y gall ymddiriedolaethau eu cyflawni.
(iii) Bod prif weithredwyr ymddiriedolaethau'n sicrhau eu bod yn gweithredu gyda chefnogaeth broffesiynol ddigonol wrth reoli eu hystadau, gan greu cydbwysedd priodol rhwng angen a'r hyn y gellir ei fforddio. Bod yr adolygiad o swyddogaeth Ystadau Iechyd Cymru yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad llawn ag ymddiriedolaethau a bod y trefniadau gwasanaeth fydd yn deillio ohono ar gyfer darparu arbenigedd craidd, canolog ar faterion ystâd i GIG Cymru yn rhoi gwerth am arian i'r Cynulliad a'r cyrff GIG sy'n meddiannau eiddo.

(iv) Bod ymddiriedolaethau yn sicrhau bod cofnodion perchnogaeth a thenantiaeth yn cael eu rheoli'n weithredol yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol fel rhan o adolygiadau Pennaeth GIG Adran GIG Cymru o berfformiad prif weithredwyr.

(v) Dylid symleiddio'r broses ymgeisio am nawdd cyfalaf er mwyn cyflymu'r gwaith o gymeradwyo prosiectau iechyd a diogelwch blaenoriaeth uchel i ganiatáu cychwyn yn gynt ar waith, yn amodol ar sicrwydd bod yr ateb arfaethedig yn rhoi gwerth am arian.

(vi) Bod pob corff GIG yng Nghymru sy'n meddu ar eiddo yn rheoli peryglon sy'n gysylltiedig â iechyd a diogelwch mewn perthynas ag eiddo y maent yn berchen arno neu sydd yn eu meddiant yn weithredol er lles cleifion, ymwelwyr a staff.

(vii) Bod Adran GIG Cymru yn gweithredu'n gynnar i sefydlu'n fwy cywir y gost bosib o unioni ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a'r rhesymau dros y cynnydd gofidus yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw y cafwyd adroddiad amdano.

(viii) Bod Adran GIG Cymru yn ystyried ffyrdd o ddarparu nawdd ar sail tair blynedd yn hytrach na thrwy ddyrannu blynyddol ar gyfer mynd i'r afael â phrif broblemau ôl-groniad cynnal a chadw o fewn cynllun strategol y cytunwyd arno ar lefel genedlaethol a lleol.

(ix) Bod rheolwyr y GIG ar lefel ymddiriedolaeth yn ymdrechu i leihau'n sylweddol y gyfran o'r ystâd sy'n is na'r safon dderbyniol o ran bod yn addas i'r pwrpas.

(x) Bod pob ymddiriedolaeth yn ymgynghori â phobl anabl i sicrhau bod eu cynlluniau i gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn briodol.

(xi) Bod Adran GIG Cymru yn gweithredu i sicrhau bob ymddiriedolaeth yn cwblhau arolygon llawn defnyddio lle erbyn mis Rhagfyr 2003.

(xii) Bod strategaethau ystâd pob ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â phroblemau defnyddio lle trwy gynnal asesiad cynhwysfawr a manwl o lety sydd wedi'i danddefnyddio a'i orboblogi, a dwyn cynigion ymarferol gerbron i wella'r sefyllfa. Byddai hyn yn cynnwys gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r holl le sydd ar gael.

(xiii) Bod prif weithredwyr ymddiriedolaethau'n sicrhau y ceir gweithredu cynnar er mwyn rhesymoli eu hystadau a lleihau'r lleoedd sy'n wag ac yn cael eu tanddefnyddio. Gallai hyn arwain at arbedion ariannol o ganlyniad i gynnal a chadw a gwaredu'r safleoedd hyn ac felly ryddhau arian ar gyfer buddsoddiad newydd i wella ystadau gweithredol. Edrychwn at Bennaeth Adran GIG Cymru i bwyso ar brif weithredwyr i gyflawni hyn yn gost effeithiol a gyda'r brys priodol.

(xiv) Dylid cyflawni gwaith pellach i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy ar fanteision y gellir eu sicrhau gan y GIG yng Nghymru trwy fuddsoddiad wedi'i dargedu mewn mesurau effeithlonrwydd ynni.

(xv) Dylid gosod targedau defnyddio ynni sy'n gosod her ar gyfer pob ymddiriedolaeth yn unigol yn erbyn cefndir y targed cyffredinol a osodwyd gan y llywodraeth.

(xvi) Bod y Cynulliad yn ystyried manteision defnyddio gwres gwastraff o ffynonellau eraill ac yn darparu cyfarwyddyd i ymddiriedolaethau ar integreiddio'r defnydd o wres gwastraff o radd isel o fusnesau lleol mewn unedau gwres a phwer cyfunol mewn ysbytai ac adeiladau gofal iechyd newydd.

**ATODIAD F**

## ARGYMHELLION ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD ERS MIS MEDI 2002

### Adroddiad Cyffredinol ar Waith Archwilio Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru: 2000-2001

***Ar y themâu sy'n codi o lythyrau rheoli 2000-01 Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru***

(i) Rydym yn credu bod adroddiadau archwilio allanol i'r rheolwyr yn rhan hanfodol ac annatod o'r broses archwilio ac y dylid eu parchu yn llwyr a gweithredu arnynt. Mae'n amlwg bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif yn hyn o beth ac rydym yn cymeradwyo'r gweithdrefnau y mae ef a'r Grwp Cyllid wedi'u sefydlu er mwyn monitro'r ffordd y mae'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael eu rhoi ar waith. Rydym yn ofni, mewn nifer fach o achosion, nad yw'r rheolwyr wedi gweithredu ar unrhyw un o'r prif argymhellion ac rydym yn eu hannog i fynd ar drywydd achosion o'r fath gan gynnwys cymryd camau disgyblu mewn achosion difrifol;

(ii) O ran cynlluniau grant, mae gan Lywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir ddyletswydd i sicrhau bod ceisiadau a hawliadau yn cael eu dogfennu yn gywir a bod monitro digonol yn cael ei wneud er mwyn lleihau'r risg na fydd gwariant afreolaidd yn cael ei ddarganfod. Ni fyddai methiant yn hyn o beth yn dderbyniol a gallai'r canlyniadau posibl fod yn ddifrifol. Er enghraifft, yn achos prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, mae risg o adfachu a bod Cymru yn colli arian pwysig;

(iii) Rydym felly yn annog Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ar unwaith ar unrhyw fethiant a ddaw i'r golwg, i adolygu gweithrediad y prif gynlluniau grant yn rheolaidd ac i ddarparu rhaglen hyfforddi systematig ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â gweithgareddau cymeradwyo a monitro grant;

(iv) Disgwyliwn i holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru roi sylw penodol i'w trefniadau ar gyfer rheoli arian parod, sydd yn ein barn ni yn sylfaenol i'w rheolaeth ariannol. Yn benodol, dylai pob cyfrif banc gael ei gysoni mewn modd amserol a dylid cymryd gofal i osgoi gorddrafft, sieciau wedi'u camosod a defnyddio debyd uniongyrchol heb awdurdod;

***Gwariant sy'n cael ei ariannu gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd***

(v) Rydym yn nodi gyda phryder bod angen i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru roi cymeradwyaeth amodol i wyth allan o'r 24 o dystysgrifau archwilio a roddwyd mewn perthynas â cheisiadau am arian grant Ewropeaidd a wnaed

gan y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'n amlwg bod llawer o'r gwallau a nodwyd gan yr archwilwyr wedi codi oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth ymhlith rhai rheolwyr prosiect o'r rheolau manwl sy'n llywodraethu cynlluniau grant Ewropeaidd. Mae hyn yn annerbyniol. Er ein bod yn cydnabod bod WEFO yn gweithio i wella ansawdd y cyngor a'r canllawiau a ddarperir i reolwyr prosiect, rydym yn ei hannog i weithio'n agosach gyda staff yn y cyrff cyhoeddus perthnasol a noddir i sicrhau bod gwallau o'r fath yn cael eu cadw i'r lleiaf yn y dyfodol;

(vi) O ran y moratorium ar dystysgrifau archwilio blynyddol ar gyfer prosiectau ESF, rydym yn nodi bod hwn wedi cael ei orfodi mewn ymateb i anawsterau dilys a brofir gan archwilwyr y sector preifat yng Nghymru a Lloegr Rydym yn credu bod y gofyniad am dystysgrifon archwilio blynyddol yn rhoi 'rhybudd cynnar' gwerthfawr i reolwyr prosiect ac i WEFO, am unrhyw broblemau sy'n codi gyda phob prosiect. Rydym felly yn disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau brys i gwblhau'r adolygiad o'r canllawiau i'r proffesiwn archwilio ar lefelau'r sicrwydd sydd ei angen i ddilysu'r ceisiadau grant ESF, ac i adfer y gwiriad annibynnol pwysig hwn cyn gynted â phosibl;

(vii) Nodwn y sicrwydd yr ydym wedi'i gael y bydd cyllid Ewropeaidd sy'n cael ei adfachu o un prosiect yn gallu cael ei ail-ddefnyddio gan WEFO ar gyfer prosiectau eraill yn hytrach na'i ildio i Ewrop. Er y dylai adfachu grant bob amser gael ei weld fel y cam olaf, credwn na ddylai WEFO betruso dim cyn cymryd camau o'r fath, lle bo'n briodol. Byddai hwn yn anfon neges gref at dderbynwyr grant eraill na fydd camreoli yn cael ei oddef. Byddai hefyd yn helpu i sicrhau bod Cymru yn gallu gwneud y gorau o'r manteision y gellid eu cael o arian Ewropeaidd;

***Trefniadau cyfrifo a chyllido'r Cynulliad Cenedlaethol***

(viii) Rydym yn falch iawn o nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gyda chyfrifo ar sail adnoddau a pharatoi ar gyfer cyflwyno cyfrifon "llywodraeth gyfan", sydd yn ôl ein dealltwriaeth ni, yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Yn y cyd-destun hwn rydym yn nodi bod yr angen i gyfuno canlyniadau ariannol llawer mwy o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol yn debygol o olygu y bydd pwysau sylweddol yn cael eu rhoi ar y Grwp Cyllid er mwyn gallu bodloni'r terfynau amser statudol. Rydym yn gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyllid yn parhau i sicrhau bod y camau pwysig hyn yn cael eu gweithredu gan staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas. Rydym hefyd yn annog y Grwp Cyllid i weithio â'r cyrff perthnasol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ariannol;

(ix) Rydym hefyd yn nodi fod cyllidebu ar sail adnoddau a'r system ariannol a rheoli cyfrifon wedi cael eu cyflwyno yn ddiweddar ac rydym yn edrych ymlaen at weld y manteision a fydd yn datblygu dros amser o ran rheoli cyllidebau'r Cynulliad. Rydym yn gobeithio bod y problemau cychwynnol gyda'r system cyfrifo newydd - yn enwedig yr oedi wrth wneud taliadau - wedi

cael eu datrys neu y byddant yn cael eu datrys cyn bo hir, ac y bydd y gwelliannau pellach sydd wedi'u cynllunio yn gallu cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl.

***Casgliad cyffredinol***

Rydym yn falch bod yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod safonau rheoli ariannol a gonestrwydd yn parhau yn uchel yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cytuno bod hyn yn dyst i waith caled a diwyd y swyddogion ar bob lefel o fewn y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus perthnasol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fodd bynnag, wedi rhoi rhybudd cynnar yn enwedig mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer hawlio grantiau a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Rydym yn annog Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru a'r holl gyrff sy'n ymwneud â phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan gyllid Ewropeaidd i ystyried y rhybudd ac i gymryd camau i sicrhau bod y ffynhonnell hanfodol hon o gyllid yn cael ei rheoli'n gywir er lles Cymru.

***Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru***

1. O fewn y cyd-destun strategol newydd hwn, bod Adran GIG Cymru yn cydweithio'n glòs â chyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo, er mwyn sicrhau canlyniadau go iawn wrth foderneiddio a gwella'r ystâd.
2. Bod Adran GIG Cymru yn codi ymwybyddiaeth ymysg ymddiriedolaethau ynghylch y gallu i gydweithio â sefydliadau gwirfoddol neu elusennol er mwyn caffael adeiladau mwy addas ar gyfer darparu gofal iechyd;
3. Bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystyried archwilio prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy'r fenter PFI yn GIG Cymru, er mwyn asesu a yw'r manteision a haerwyd yn cael eu gwireddu;
4. Bod contractau ar gyfer y fenter cyllid preifat yn GIG Cymru yn dilyn yr arferion gorau diweddaraf ac, yn enwedig, yn rhannu elw a throsglwyddo risg mewn ffyrdd sy'n sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr;
5. Bod Adran GIG Cymru yn monitro'n glòs y trefniadau a gyflwynwyd i reoli'r graddau y mae ymddiriedolaethau yn trosglwyddo cyllid cyfalaf i arian refeniw;
6. Bod Pennaeth Adran GIG Cymru yn adrodd i ni ymhen 12 mis ynghylch y cynnydd a gafwyd yn y gwaith o waredu'r ystâd weddillol sy'n dal ar ôl;
7. Bod Adran GIG Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na cheir achos arall lle mae cost y gwerthu yn sylweddol uwch nag elw'r gwerthiant;
8. Bod Adran GIG Cymru, gyda chymorth Ystadau Iechyd Cymru, yn datblygu targedau gwaredu ar gyfer eiddo GIG Cymru fel mater o frys. Dylai'r targedau hyn fod yn rhai ymestynnol a realistig, a dylid gwneud pob ymdrech posibl i leihau'r amser cyfartalog a gymerir i waredu eiddo sydd dros ben.
9. Bod y GIG yn mynd ati'n fywiog i enwi eiddo anaddas ac eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, er mwyn eu gwaredu. Rydym hefyd yn argymell bod Pennaeth Adran GIG Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ymhen 12 mis ar yr hyn a gyflawnwyd tuag at wireddu'r £30 miliwn ychwanegol.

**Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru**

i) ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, bod y trefniadau rheoli sylfaenol yn cael eu penderfynu ymhell cyn lansio'r rhaglen, a bod canllawiau cynhwysfawr i bartneriaid ac ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi mewn da bryd
ii) bod WEFO yn cadw golwg barcud ar ddosbarthiad daearyddol y gwariant a manteision y rhaglenni, er mwyn nodi meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt, a'i bod yn cymryd rhan broactif yn y broses o helpu partneriaethau i ddod o hyd i atebion;
iii) bod WEFO a'r Cynulliad yn cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gan WEFO ddigon o adnoddau i gyflawni holl gwmpas ei gwaith;
iv) bod WEFO yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cwblhau'r camau sy'n weddill i wneud y gwelliannau TG angenrheidiol ar amser ac rydym yn ei hannog i wneud popeth yn ei gallu i gadw'r costau o wneud hyn mor isel â phosibl, gan fod systemau cyfrifiadurol newydd a chanddynt enw drwg am beri oedi a chynyddu costau;
v) bod WEFO yn ceisio bod mor broactif â phosibl wrth fonitro faint o arian cyfatebol sydd ar gael a phwy sy'n ymgeisio amdano er mwyn i'r rhai sydd â'r dylanwad angenrheidiol i wneud gwelliannau allu nodi problemau a chynnig atebion posibl;
vi) bod pob swydd wag ar gyfer hwyluswyr yn y sector preifat yn cael eu llenwi heb oedi pellach a bod WEFO yn gwneud ei gorau glas i sicrhau bod y "prosiectau glasbrint" yn llwyddo;
vii) bod WEFO yn dal i adolygu'r broses o ddatblygu ac asesu prosiectau, gyda'r bwriad o ddileu neu newid yr elfennau hynny sy'n dod yn ddianghenraid. Rydym yn cytuno â bwriad WEFO i roi'r gorau i'r ail gam, sef ymgynghori â phartneriaethau, cyn belled â bod y cam cyntaf yn gweithio'n dda, ac rydym yn ei hannog i wneud hyn ar y cyfle cyntaf;
viii) bod WEFO yn defnyddio'i system wybodaeth newydd i fonitro amserau arfarnu'n systematig, er mwyn gallu nodi unrhyw broblemau neu oedi yn gyflym;
ix) bod WEFO yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cronfeydd allweddol ac ar gyfer comisiynu prosiectau, tra'n cadw llygad barcud ar yr effaith sydd ganddynt ar y gyfradd wario;
x) bod WEFO yn cymryd camau o'r dechrau i wella'i chanllawiau a chreu fframwaith ar gyfer asesu gwerth ychwanegol. Rydym yn disgwyl i hyn arwain at fwy o eglurder a dealltwriaeth ehangach o'r hyn sydd ei angen, ac at asesiad o werth ychwanegol wedi'i seilio ar risg, yn ystod y broses arfarnu;
xi) bod WEFO yn sicrhau ei bod yn cynnal asesiad digon manwl o'r angen am bob prosiect, gan ymgorffori gwaith partneriaethau lle y bo'n bosibl a bod yn cael ei gofnodi'n briodol ar ffeiliau WEFO yn y dyfodol;
xii) bod WEFO yn datblygu system fwy cyson a chadarn ar gyfer asesu costau a chanlyniadau prosiectau o ran rhoi gwerth am ei harian;
xiii) bod WEFO, efallai drwy ei hymweliadau rheolaeth ariannol, yn cymryd camau i gadarnhau, ar ddechrau pob prosiect, fod systemau a threfniadau cadw cofnodion da ar waith ac nad oes unrhyw broblemau difrifol o ran eu gweithredu;
xiv) bod WEFO yn cynnal adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer archwilio a rheolaeth ariannol, gyda'r bwriad o wella eglurder a chydweithrediad rhwng archwilwyr allanol y prosiectau â'i thîm rheolaeth ariannol ei hun;

xv) bod WEFO yn ystyried mabwysiadu polisi o ymweld â holl noddwyr prosiectau o leiaf unwaith i gadw golwg ar hynt eu gwaith ac i sicrhau ei bod yn cael gwybodaeth ddilys am y canlyniadau;
xvi) bod WEFO yn cymryd pob cam posibl i leihau'r risg o ddadneilltuo yn enwedig yn achos EAGGF a FIFG gan mai yno mae'r risg fwyaf ar hyn o bryd;
xvii) Rydym yn argymell bod WEFO yn talu sylw penodol i ddatblygu ei gweithdrefnau rhagweld gwariant – a gallu noddwyr y prosiectau – i sicrhau bod gorneilltuo ar raddfa fach, sy'n unol â thueddiadau diweddar, ac sydd wedi'i reoli'n llym, yn ddigonol ar gyfer defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol sydd ar gael; a
xviii) bod WEFO ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gellir rheoli risg yn y gyfradd gyfnewid yn ystod camau terfynol y rhaglenni pan fydd llai byth o gyfle i newid y gwariant yn y cylch rhaglennu.